

# Rhan Ch – Pleidleisio absennol

Etholiadau llywodraeth leol yng  
Nghymru a Lloegr: canllawiau i  
Swyddogion Canlyniadau

Rhagfyr 2016 (diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2018)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk)

## Diweddariadau i'r ddogfen hon

<b>Diweddarwyd</b>	<b>Disgrifiad o'r newid</b>
Ebrill 2017	Diweddarwyd er mwyn cynnwys cyfeiriadau at reoliadau diwygio sy'n effeithio ar y ffurflenni a'r hysbysiadau rhagnodedig er mwyn helpu Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol i gael gafael ar yr hyn sydd ei angen arnynt yn haws er mwyn gallu eu cynhyrchu. Ôl-nodiadau cyfeirio cyfreithiol <b>31 a 32.</b>
Mai 2017	Diweddarwyd er mwyn dileu'r adran ar bleidleiswyr post sydd wedi cael eu dileu o'r gofrestr yn ystod cyfnod yr etholiad.
Tachwedd 2017	Diweddarwyd er mwyn ychwanegu: <ul style="list-style-type: none"><li>• testun ar y deunydd a ddefnyddir ar gyfer pleidleiswyr dienw drwy'r post (paragraff <b>4.19</b>)</li><li>• testun ar y defnydd o fusnes rhyngwladol amlenni dychwelyd pleidleisiau post ymateb ar gyfer etholwyr tramor (paragraff <b>3.25</b>)</li><li>• testun ar y weithdrefn ar gyfer ailanfon pleidleisiau post a gollwyd/nas derbyniwyd at etholwyr tramor (paragraff <b>5.27</b>)</li><li>• testun ar y broses o sicrhau tryloywder y broses o agor pleidleisiau post. (paragraff <b>6.23</b>)</li></ul>
Gorffennaf 2018	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarwyd er mwyn ystyried Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018</li></ul>

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Absent voting timetable</b>	<b>1</b>
	Changes to absent voting arrangements ahead of the elections	2
<b>2</b>	<b>Proxy voting</b>	<b>4</b>
	Limits on number of proxies and voting as proxy	4
	Emergency proxies	5
<b>3</b>	<b>Preparing for the postal vote processes</b>	<b>7</b>
	Staffing and training	8
	Layout of venues	8
	Equipment for the issue, receipt and opening of postal votes	9
	Options for delivering postal ballot packs	10
	By hand	10
	By post	10
	Issuing postal votes to overseas addresses	11
	Issuing postal votes to anonymous electors	12
	Subsequent issues of postal ballot packs	12
	Delivering postal votes by hand	13
	Number and timing of postal vote opening sessions	13
<b>4</b>	<b>Production of postal vote stationery</b>	<b>15</b>
	Corresponding number list	15
	Producing the postal vote stationery	15
	Carrying out checks of the printing process	16
	Handling of personal data by contractors	17
	Contents of postal ballot packs	18
	Envelopes	18
	The ballot paper	19
	Postal voting statement	19
	Additional instructions to voters	20
	Marking of polling station registers	21
<b>5</b>	<b>Procedure for issuing and distributing postal votes</b>	<b>22</b>
	Who must be sent a postal vote?	22
	Who can attend?	22
	Checking the issuing process	22
	The issuing process	23
	Re-issuing postal ballot packs	25
	Procedure for re-issuing spoilt postal votes	25
	Procedure for re-issuing lost/not received postal votes	26

Procedure for re-issuing as a result of a procedural error.....	29
Cancelling postal ballot packs .....	30
Retrieval of cancelled postal votes .....	31
Record-keeping .....	31
<b>6 Receiving and opening postal votes.....</b>	<b>33</b>
Receipt of postal votes .....	33
Postal ballot boxes and packets .....	33
Record-keeping.....	36
Marking the lists of postal voters and postal proxy voters .....	38
Confirming to voters their postal vote has been returned .....	38
Opening of postal votes.....	39
Who can attend the opening of postal votes? .....	39
Postal vote opening procedure .....	41
Checking the personal identifiers.....	42
The final opening of postal votes .....	43
Keeping a record of incomplete postal ballot packs returned .....	43
Dealing with cut or torn postal ballot papers .....	44
Preparing a record of those postal votes that have failed the identifier checks .....	44

# 1 Amserlen ar gyfer pleidleisio absennol

1.1 Rhaid anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol, sydd, yn ymarferol, yn golygu unrhyw bryd ar ôl i'r manylion i'w hargraffu ar y papurau pleidleisio gael eu cadarnhau, h.y. ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enw yn ôl, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.<sup>1</sup>

1.2 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dau hysbysiad newid etholiad interim cyn cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad terfynol ar y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais.<sup>2</sup> Mae hyn yn cefnogi dosbarthu pleidleisiau post ar gam cynnar yn yr amserlen i'r etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais i gofrestru yn agos at y terfyn amser ar gyfer cofrestru, oherwydd dim ond rhywun sydd eisoes wedi'i ychwanegu at y gofrestr a all dderbyn pleidlais bost. Bydd eu hanfon yn gynnar yn cynyddu'r amser sydd ar gael i etholwyr - yn enwedig pleidleiswyr yn y lluoedd arfog a'r rhai sydd wedi gofyn am i'w pecyn pleidleisio drwy'r post gael ei anfon i gyfeiriad tramor - dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais drwy'r post.

1.3 Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn llunio'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy ddirprwy, a bydd angen i chi gael y rhestrau hyn cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad interim cyntaf i'w ddefnyddio wrth anfon pleidleisiau post yn gychwynnol. Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei gyhoeddi ar y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Bydd hefyd angen i chi gael unrhyw ddiweddariadau dilynol pan fydd yr ail hysbysiad newid etholiad interim a'r hysbysiad newid etholiad terfynol wedi'u cyhoeddi. Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gysylltu ag ef er mwyn cytuno ar y broses o gael gafael ar y rhestrau.




Mae Pennod 11 o [Ran 4 - Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gyhoeddi hysbysiadau newid etholiad.

1.4 Y dyddiad cau i etholwyr wneud newidiadau (yn cynnwys canslo) i drefniadau presennol pleidleisio absennol (h.y. pleidleisiau post, pleidleisiau drwy ddirprwy a phleidleisiau post drwy ddirprwy) yw 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Fodd bynnag, os yw etholwr yn bleidleisiwr post sydd eisoes wedi dychwelyd ei bapur(au) pleidleisio drwy'r post, ni all wneud unrhyw newidiadau wedi hynny, hyd yn oed os yw cyn 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio.<sup>3</sup>


1.5 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais bost newydd a cheisiadau am bleidlais bost drwy ddirprwy newydd yw 5pm hefyd, 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy

ddirprwy newydd (nid pleidlais bost drwy ddirprwy), heb gynnwys ceisiadau brys am ddirprwy, yw 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio.<sup>4</sup>



Y terfyn amser ar gyfer ceisiadau brys am ddirprwy yw 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Gweler Pennod 2 '**Proxy voting**' isod am ragor o wybodaeth am ddirprwyon brys.

1.6 Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhoi'r rhestrau terfynol o bleidleiswyr absennol i chi, h.y. y rhestr o bleidleiswyr post, y rhestr o bleidleiswyr post drwy ddirprwy a'r rhestr o ddirprwyon, ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fynd heibio. Efallai na fydd y rhestrau terfynol o bleidleiswyr absennol ar gael tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer pennu cofrestriad, sef chwe diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Y rheswm dros hyn yw, lle caiff cais cofrestru sydd wedi'i gwblhau ei wneud erbyn y dyddiad cau, ond na ellir cadarnhau pwy sy'n gwneud cais yn erbyn cofnodion DWP neu drwy baru data lleol, mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol tan y dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniad i gael y dystiolaeth ofynnol gan yr ymgeisydd o dan y broses ethriadau a gwneud penderfyniad; os bydd yr ymgeisydd hefyd wedi gwneud cais am bleidlais absennol erbyn y dyddiad cau perthnasol ar gyfer pleidlais absennol, ni ellir rhoi'r bleidlais absennol nes i'r cais cofrestru gael ei bennu'n gadarnhaol.



Ceir rhagor o wybodaeth am roi'r rhestrau o bleidleiswyr absennol i'r rhai sy'n sefyll etholiad yn [Rhan C - Gweinyddu'r bleidlais o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Canlyniadau](#).

Mae Pennod 5 o [Ran 5 - Pleidleisio absennol](#) o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yn cynnwys gwybodaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol am roi'r rhestrau o bleidleiswyr absennol i'r rhai sy'n sefyll etholiad.

## Newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol cyn yr etholiad

1.7 Efallai y bydd unigolyn yr anfonir ei bleidlais bost ato'n gynnar yn amserlen yr etholiad yn ei chael ond yna'n penderfynu nad yw am bleidleisio drwy'r post mwyach a bod dal amser iddo wneud newidiadau i'w drefniadau pleidleisio absennol cyn yr etholiadau.

1.8 Er mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol presennol neu ganslo pleidlais absennol yw 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais, ni chaiff etholwr sydd wedi cael ei becyn pleidleisio drwy'r post ac sydd wedi dychwelyd ei bapur(au) pleidleisio drwy'r post a gwblhawyd ar gyfer yr etholiad(au) ganslo na newid ei drefniadau pleidleisio absennol ar gyfer yr etholiadau (heblaw os dychwelwyd y papur(au) pleidleisio fel rhai a ddifethwyd neu a gollwyd). Mae hyn hefyd yn wir yn achos etholwr sy'n pleidleisio drwy ddirprwy, lle mae gan ei ddirprwy bleidlais bost a'i fod eisoes wedi pleidleisio ar ran yr etholwr drwy ddychwelyd ei bleidlais bost wedi'i chwblhau.

1.9 Y broses o ddychwelyd papur pleidleisio drwy'r post sy'n berthnasol wrth bennu p'un a all etholwr wneud newidiadau i'w drefniadau pleidleisio drwy'r post cyn yr etholiadau ai peidio. Felly, bydd angen i chi gael system ar waith sy'n eich galluogi i nodi'n brydlon p'un a yw papur pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd.

1.10 Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eich hysbysu pryd bynnag y bydd wedi caniatáu un o'r canlynol:<sup>5</sup>

- canslo pleidlais bost
- newid o bleidlais bost i bleidlais drwy ddirprwy
- newid o bleidlais drwy ddirprwy i bleidlais bost
- cais i bapur pleidleisio drwy'r post gael ei anfon i gyfeiriad gwahanol
- canslo penodi dirprwy

mewn da bryd i hynny ddigwydd ar gyfer yr etholiad. Dylech hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol pan gaiff papurau pleidleisio drwy'r post eu dosbarthu oherwydd, yn ymarferol, dim ond o'r pwynt hwnnw ymlaen a chyn y terfyn amser ar gyfer canslo a newid y byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadarnhau p'un a yw papur pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd ac felly a ellir caniatáu newid neu ganslo mewn da bryd ar gyfer yr etholiad.

1.11 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech ei hysbysu pryd y caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon a chysylltu ag ef i benderfynu sut y caiff unrhyw geisiadau i newid trefniadau pleidleisio absennol a gwybodaeth am bapurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd eu cyfnewid ar ôl hynny er mwyn sicrhau:

- bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwybod p'un a gaiff ganiatáu newid trefniadau pleidleisio absennol cyn yr etholiadau
- y gallwch ganslo'r papur(au) pleidleisio drwy'r post os caiff y cais sêl bendith

1.12 Rhoddir rhagor o ganllawiau ar ganslo papurau pleidleisio drwy'r post a chael gafael ar unrhyw bapurau pleidleisio a dderbynnir ar ôl eu canslo ym mharagraffau **5.48- 5.50**.



Ceir canllawiau cyffredinol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynghylch delio â cheisiadau pleidleisio absennol ac achosion o ganslo yn [Rhan 5 - Pleidleisio absennol o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol](#)



## 2 Pleidleisio drwy ddirprwy

2.1 Rhaid i chi roi'r rhannau perthnasol o'r rhestr o ddirprwyon a'r rhestr o ddirprwyon pleidleisio drwy'r post i Swyddogion Llywyddu.<sup>6</sup> Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, bydd yn rhoi rhestr i chi o'r holl etholwyr sydd, erbyn 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio, wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar ei ran. Bydd hefyd yn rhoi rhestr ar wahân yn cynnwys manylion dirprwyon pleidleisio drwy'r post.

2.2 Rhaid nodi 'A' yn erbyn enw etholwr sydd â dirprwy pleidleisio drwy'r post ar gofrestr yr orsaf bleidleisio.<sup>7</sup>

### Terfynau o ran nifer y dirprwyon a phleidleisio fel dirprwy

2.3 Ni all unigolyn gael mwy nag un dirprwy ar unrhyw adeg.<sup>8</sup>

2.4 Ni all unigolyn bleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad llywodraeth leol mewn unrhyw ward benodol ar ran mwy na dau etholwr nad ydynt yn perthyn yn agos.<sup>9</sup>

2.5 Gall unigolyn weithredu fel dirprwy ar gyfer unrhyw nifer o berthnasau agos. Perthynas agos yn yr achos hwn yw gŵr neu wraig, partner sifil, rhiant, mam-gu neu dad-cu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr neu wyres.

2.6 Byddai dirprwy yn cyflawni trosedd petai'n pleidleisio ar ran mwy na dau etholwr nad ydynt yn perthyn yn agos mewn ward benodol yn yr un etholiad llywodraeth leol.<sup>10</sup>

#### **Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, ni all unigolyn bleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad maerol awdurdod cyfunol ar ran mwy na dau etholwr nad ydynt yn perthyn yn agos.<sup>11</sup>

#### **Refferenda maerol ac etholiadau maerol awdurdodau lleol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, ni all unigolyn bleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad/refferendwm maerol awdurdod lleol ar ran mwy na dau etholwr nad ydynt yn perthyn yn agos.<sup>12</sup>

#### **Refferenda cynllunio cymdogaeth**

Ni all unigolyn bleidleisio fel dirprwy yn yr un refferendwm cynllunio cymdogaeth ar ran mwy na dau etholwr nad ydynt yn perthyn yn agos.<sup>13</sup>

# Dirprwyon brys

2.7 Gellir penodi dirprwyon brys ar gyfer etholiad penodol o dan yr holl amgylchiadau canlynol:

- Yn achos anabledd (p'un a yw'n gyflwr meddygol, salwch neu rywbeth arall) sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau arferol am ddirprwy (h.y. 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais.
- Os yw'r unigolyn yn glaf iechyd meddwl a gadwyd o dan bwerau sifil (h.y. y rhai nad ydynt yn droseddwr a gadwyd).
- Os yw galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth unigolyn yn golygu na all fynd i'r orsaf bleidleisio ei hun a'i fod yn dod yn ymwybodol o hyn ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau arferol am ddirprwy (h.y. 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais.

2.8 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gysylltu ag ef er mwyn cytuno ar ddull o gyfleu unrhyw ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon sy'n deillio o ganiatáu ceisiadau brys am ddirprwy.

2.9 Pryd bynnag y penodir dirprwy brys, dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r staff priodol yn yr orsaf bleidleisio i'w hysbysu am hyn, gan gynnwys dros y ffôn, yn arbennig gan nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r dirprwy ddarparu unrhyw ddogfennaeth er mwyn cael caniatâd i bleidleisio.

2.10 Lle bynnag y bo modd, fodd bynnag, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi llythyr i ddirprwy unrhyw bleidleisiwr y derbyniwyd ei gais brys am ddirprwy yn ei awdurdodi i weithredu fel dirprwy, a ddylai gynnwys manylion yr unigolyn y mae'n pleidleisio ar ei ran. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyngori'r dirprwy i fynd â'r llythyr awdurdodi hwnnw gydag ef pan fydd yn mynd i bleidleisio a'i roi i'r staff yn yr orsaf bleidleisio. Yna, gall y llythyr hwn gael ei farcio gan staff yr orsaf bleidleisio i ddangos bod y dirprwy wedi cael papurau pleidleisio ac yna ei gadw gyda'r rhestr o ddirprwyon.

2.11 Pan fo'n bosibl, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd ddarparu rhestr atodol o ddirprwyon y gellir ei rhoi i'r orsaf bleidleisio berthnasol a'i hychwanegu at y rhestr a ddarparwyd yn wreiddiol.

2.12 Dylai pa ddull bynnag o gyfleu ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon ar y diwrnod pleidleisio y cytunir arno gael ei gwmpasu yn y sesiwn hyfforddi i staff gorsafoedd pleidleisio. Rhoddir rhagor o wybodaeth am hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B - Cynllunio a threfnu](#).

2.13 Dylech ofyn i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio gydweithio â'r swyddfa gofrestru etholiadol o ran ceisiadau brys am ddirprwy a ganiateir ar y diwrnod pleidleisio a'u hysbysu o'r gweithdrefnau i'w dilyn.



Ceir rhagor o wybodaeth am geisiadau brys am ddirprwy yn [Rhan 5 - Pleidleisio absennol, o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol.](#)

# 3 Paratoi ar gyfer y prosesau pleidleisio drwy'r post

3.1 Dylai eich cynllun prosiect gynnwys cynllun i gyflawni prosesau etholiadol allweddol, gan gynnwys rheoli'r broses pleidleisio drwy'r post.



Ceir rhagor o wybodaeth am gynllunio ar gyfer etholiad ym Mhennod 1 [Rhan B - Cynllunio a threfnu](#).

## Cyfuno

Os bydd digwyddiadau pleidleisio cyfunol, gellir cyfuno'r gwaith o gyhoeddi pleidleisiau post os yw'r Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cyfrif perthnasol yn cytuno. Dylech sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei adlewyrchu yn eich cynlluniau.

Fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, dylech asesu manteision a risgiau cyfuno'r broses, gan gynnwys:

- yr effaith ar y pleidleisiwr
- arfer blaenorol
- mathau o ddigwyddiadau etholiadol
- maint y gwaith cyfuno
- maint tebygol y papurau pleidleisio
- gallu'r cyflenwr
- gofynion TG
- gofynion staffio
- gofynion y lleoliad

Lle y cyfunir y bleidlais mewn etholiad neu refferendwm â'r bleidlais mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, dylech gysylltu â'r SCAC a gwneud asesiad o fuddiannau a risgiau cyfuno

Waeth pa benderfyniad a wneir, bydd angen i chi ystyried effaith y cyfuno ar yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer cyhoeddi a dosbarthu pleidleisiau post, a'r llifau gwaith i'w dilyn.

## Refferenda cynllunio cymdogaeth

Lle bydd y refferendwm cynllunio cymdogaeth yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am sicrhau cysondeb wrth weinyddu pleidleisiau absennol ar draws ardal y refferendwm a rhaid iddo sicrhau, cyhyd ag y bo'n ymarferol, fod unrhyw bapur pleidleisio neu ddogfen

arall a gyhoeddir mewn perthynas â'r refferendwm ar yr un ffurf (heblaw am newidiadau angenrheidiol) ac y caiff ei chyhoeddi/gyhoeddi ar yr un diwrnod mewn perthynas â phob awdurdod lleol. Os cyfunir y gwaith o gyhoeddi pleidleisiau post, dylech felly gysylltu â'r Prif Swyddog Cyfrif wrth baratoi a chynllunio ar gyfer y broses pleidleisio absennol.

## Staffio a hyfforddiant

3.2 Ceir gwybodaeth am staffio sesiynau anfon ac agor pleidleisiau post a hyfforddi staff anfon ac agor pleidleisiau post ym Mhennod 2 o [Ran B - Cynllunio a threfnu](#).

## Cynllun lleoliadau



Ceir canllawiau ar ganfod lleoliadau addas ar gyfer sesiynau anfon ac agor pleidleisiau post ym Mhennod 4 o [Ran B – Cynllunio a threfnu](#).

3.3 Dylech lunio cynlluniau o'ch lleoliadau anfon ac agor. Dylai'r cynlluniau hyn nodi ble y lleolir staff a'r cyfarpar angenrheidiol, ac amlinellu'r llifau gwaith i'w dilyn. Wrth fapio llifau gwaith, dylech ystyried ffactorau sy'n cynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau etholiadol blaenorol a'r nifer ddisgwyliedig o bleidleiswyr. Os bwriedir cynnal eich sesiwn agor pleidleisiau post olaf yn y lleoliad cadarnhau a chyfrif, dylech sicrhau bod eich cynllun cadarnhau a chyfrif yn darparu ar gyfer hyn.

3.4 Bydd mynd drwy'r broses o lunio cynlluniau yn helpu i amlygu unrhyw broblemau posibl cyn paratoi'r lleoliadau a bydd yn golygu y gellir gwneud unrhyw addasiadau i lif gwaith neu leoliad staff neu gyfarpar mewn da bryd. Mae cynlluniau hefyd yn cyfrannu at dryloywder, gan fod modd i'r cynlluniau hyn gael eu rhoi i unrhyw un sydd â hawl i fod yn bresennol er mwyn eu helpu i ddilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd.

3.5 Dylech sicrhau, pa bynnag gynllun a ddewisir, ei fod yn hygyrch i bawb sy'n gweithio ar y prosesau a'r rhai a gaiff eu harsylwi.

3.6 Hyd yn oed os ydych wedi rhoi'r gwaith o anfon pleidleisiau post ar gontract allanol, dylech fod yn fodlon bod eich contractwyr wedi gwneud trefniadau digonol i weinyddu'r broses yn effeithiol ac yn dryloyw. Fel rhan o hyn, gallech ofyn i'ch contractwr am gynlluniau. Byddai'r cynlluniau hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod unrhyw arsylwyr sy'n bresennol yn deall y prosesau a ddilynir, a byddant o fudd arbennig i'ch staff a benodwyd i gynnal hapwiriadau wrth argraffu, coladu ac anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post. Dylech ddynodi aelod o'r tîm prosiect i fonitro gwaith ar gontract allanol a gwaith y contractwr, ac yn benodol i fynychu'r rhannau hynny o'r broses anfon a roddwyd ar gontract allanol.

# Cyfarpar ar gyfer anfon, derbyn ac agor pleidleisiau post

3.7 Os ydych yn anfon pleidleisiau post yn fewnol, dylech sicrhau bod gennych y cyfarpar sydd ei angen i wneud hynny, gan gynnwys:

- papurau pleidleisio, datganiadau pleidleisio drwy'r post ac amlenni
- y rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post
- offer stampio (os caiff ei ddefnyddio i ychwanegu'r nod swyddogol at bapurau pleidleisio)
- y rhestr neu'r rhestrau rhifau cyfatebol
- setiau o amlenni ar gyfer y rhestr rhifau cyfatebol
- datganiad am bleidleisiau post a anfonwyd
- taflenni rheoli er mwyn dogfennu nifer y pleidleisiau post a anfonwyd ac a ddosbarthwyd
- taflen llofnodion staff er mwyn nodi'r staff sy'n bresennol
- blychau wedi'u labelu
- fingerettes
- deunydd swyddfa amrywiol, fel beiros, pensiliau, clipiau papur, bandiau rwber, tâp a phrennau mesur

3.8 Rhaid i chi ddarparu blwch pleidleisio ar gyfer yr amlenni a ddychwelir gan bleidleiswyr post ('blwch pleidleisio i bleidleiswyr post') a'r papurau pleidleisio drwy'r post (y 'blwch pleidleisiau post').<sup>14</sup>

3.9 Ymhob sesiwn agor, rhaid i chi hefyd ddarparu blychau ar gyfer y canlynol:<sup>15</sup>

- pleidleisiau a wrthodwyd
- datganiadau pleidleisio drwy'r post
- amlenni papurau pleidleisio
- amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd

3.10 Hefyd, mae'n ofynnol i chi gael copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o bleidleiswyr post drwy ddirprwy fel y gellir marcio cofnodion fel datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd.<sup>16</sup>

3.11 Dylech hefyd ystyried pa gyfarpar arall y bydd ei angen arnoch wrth agor pleidleisiau post, a sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei brofi ymlaen llaw. Dylai hyn gynnwys:

- sganwyr
- lidiau ymestyn
- argraffydd
- uwchdaflunydd a sgrin
- gliniaduron a/neu gyfrifiaduron
- stamp a phad 'Gwrthodwyd'

- deunydd swyddfa amrywiol

## Opsiynau ar gyfer anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post

3.12 Bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post Gallwch wneud hyn mewn dwy ffordd:<sup>17</sup>

- yn bersonol
- drwy'r post

3.13 Pa opsiwn bynnag a ddewiswch, dylech sicrhau bod y gweithgareddau angenrheidiol sy'n deillio o'r penderfyniad yn cael eu nodi, eu cynllunio a'u datblygu.

3.14 Fel rhan o'r gwaith o gynllunio uniondeb yr etholiad, dylech hysbysu eich pwynt cyswllt unigol o'r dyddiad y byddwch yn dechrau anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr. Bydd hyn yn nodi'r dyddiad pan fo mwy o risg o dwyll pleidleisio drwy'r post a dylai hyn fod yn rhan o'i gynlluniau ei hun.

### Yn bersonol

3.15 Os byddwch yn penderfynu anfon pleidleisiau post yn bersonol, dylech gynllunio ar gyfer sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech benodi digon o staff i sicrhau bod pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu derbyn gan bleidleiswyr post cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr post yn cael cymaint o amser â phosibl i dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais bost.

3.16 Dylech sicrhau bod staff yn ymwybodol o ystyriaethau diogelu data, a dylech ystyried ei gwneud yn ofynnol i staff gadarnhau'n ysgrifenedig ar adeg recriwtio y byddant yn dilyn eich polisi diogelu data.

3.17 Dylech hefyd sicrhau bod system ar waith i fonitro'r broses o ddosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post, gyda'r nod o sicrhau eu bod wedi cael eu hanfon ledled yr ardal etholaethol gyfan yn unol â'r amserlen gytûn. Gall hyn gynnwys gofyn i staff dosbarthu lenwi taflenni cofnodi, cael goruchwylwyr i gynnal hapwiriadau, a monitro unrhyw achosion lle ceir cyfraddau anarferol o isel o dychwelyd pleidleisiau post a gwblhawyd fesul dosbarth pleidleisio.

### Drwy'r post

3.18 Gallwch ddefnyddio'r Post Brenhinol neu unrhyw gwmni dosbarthu masnachol arall i ddosbarthu pleidleisiau post. Y naill ffordd neu'r llall, rhaid i chi gyfrif cyfanswm nifer yr amlenni a anfonir a threfnu iddynt gael eu dosbarthu i'r cyflenwr hwnnw ynghyd â derbynneb yn dangos cyfanswm nifer y pecynnau pleidleisio drwy'r post yn y swp hwnnw.<sup>18</sup> Dylai'r dderbynneb hon gael ei hardystio gan y Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu er mwyn

cydnabod derbyn y swp. Dylech hefyd gael unrhyw brawf postio a ddarperir gan y cyflenwr.

3.19 Dylech sicrhau bod system ar waith i fonitro'r broses o ddosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post, gyda'r nod o sicrhau eu bod wedi cael eu hanfon ledled yr ardal etholaethol gyfan yn unol â'r amserlen gytûn. Os oes modd, dylai fod gennych drefniadau ar waith i olrhain dosbarthiadau er mwyn eich helpu i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr ynghylch dosbarthu eu pecyn pleidleisio drwy'r post. Dylech fonitro unrhyw achos lle ceir cyfraddau anarferol o isel o ddychwelyd pleidleisiau post a gwblhawyd fesul dosbarth pleidleisio oherwydd gall fod yn arwydd o broblemau dosbarthu.

3.20 Os ydych yn postio pecynnau pleidleisio drwy'r post, dylech fod mewn cyswllt rheolaidd â naill ai'r Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu masnachol sydd ar gontract, gan gynnwys i drafod unrhyw broblemau dosbarthu.

3.21 Os ydych yn defnyddio'r Post Brenhinol i ddosbarthu eich pleidleisiau post, dylech roi trefniadau ar waith ar gyfer y trwyddedau perthnasol a rhifau Ymateb Busnes cyn gynted â phosibl a chadarnhau bod eich deunydd swyddfa arfaethedig yn bodloni eu manylebau er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl pan ddisgwylir i'ch pecynnau pleidleisio drwy'r post gael eu dosbarthu i etholwyr. Dylai hyn gynnwys cymryd camau i sicrhau y caiff y stamp cywir ei roi ar unrhyw bleidlais bost a anfonir i gyfeiriadau y tu allan i'r DU. Os ydych yn defnyddio cwmni dosbarthu masnachol, dylech wneud trefniadau tebyg fel y bo'n briodol.

3.22 Dylai eich cynlluniau wrth gefn nodi sut y byddech yn anfon ac yn derbyn unrhyw becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd os na all y Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu masnachol sydd ar gontract ddosbarthu'r pecynnau pleidleisio drwy'r post, er enghraifft, oherwydd gweithredu diwydiannol.

3.23 Os ydych yn defnyddio'r Post Brenhinol i ddosbarthu eich pleidleisiau post, dylech sicrhau bod gennych gopi cyfredol o ganllawiau arfer gorau'r Post Brenhinol ar bleidleisiau post, [Rheoli Pleidleisiau Post](#).

## Anfon pleidleisiau post i gyfeiriadau tramor

3.24 Gall fod etholwyr sydd wedi gofyn am i'w pecyn pleidleisio drwy'r post gael ei anfon i gyfeiriad tramor. Dylai unrhyw becynnau pleidleisio drwy'r post i'w hanfon dramor gael eu blaenoriaethu er mwyn caniatáu digon o amser i'r pecyn pleidleisio gyrraedd yr etholwr a chael ei gwblhau a'i ddychwelyd. Fel rhan o'ch paratodau ar gyfer anfon pleidleisiau post, dylech gytuno â'ch argraffwyr ar broses a fydd yn eich galluogi i wneud hyn.

3.25 Dylai pleidleisiau post sy'n mynd dramor gael eu hanfon drwy wasanaeth post awyr (neu gan Swyddfa'r Post Lluoedd Prydain ar gyfer pleidleiswyr perthnasol yn y lluoedd arfog) fel bod cymaint o amser â phosibl iddynt dderbyn, cwblhau a dychwelyd pleidleisiau post. Dylai pecynnau pleidleisio drwy'r post a anfonir dramor gael eu didoli a'u marcio ar gyfer y dosbarthwr er mwyn eu hanfon drwy'r gwasanaeth priodol.



3.26 Dylech gysylltu â'r Post Brenhinol ynghylch cost cludiant ar gyfer anfon eitemau dramor er mwyn sicrhau bod y gost gywir o ran cludiant ar bob pecyn pleidleisio drwy'r post sy'n mynd allan. Rhaid i chi gynnwys amlen er mwyn hwyluso dychwelyd y pecyn pleidleisio drwy'r post, ond ar gyfer eitemau a anfonir dramor, ni ddylai'r amlen gynnwys stamp dychwelyd ar gyfer y DU oherwydd ni fydd yn ddigon i ddychwelyd y pecyn pleidleisio drwy'r post i'r DU a gallai beri oedi wrth ddychwelyd y pecyn pleidleisio drwy'r post a gwblhawyd. Yn hytrach, dylech wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol i ddefnyddio trwydded ymateb busnes rhyngwladol ar bob amlen dychwelyd a roddir mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post a anfonir i gyfeiriadau dramor er mwyn hwyluso dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau yn brydlon o'r tu allan i'r DU.

3.27 Os nad yw'n realistig efallai i becyn pleidleisio drwy'r post gael ei anfon, ei gwblhau a'i ddychwelyd cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hysbysu'r etholwr o'r ffaith hon a'i gynghori i benodi dirprwy yn ei le. Wrth gwrs, dewis yr etholwr yw pa ddull o bleidleisio sydd orau ganddo, ond mae'n bwysig hysbysu etholwyr yn llawn o'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'u dewis fel y gallant wneud penderfyniad hyddysg.

## Dosbarthu pleidleisiau post i etholwyr dienw

3.28 Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a anfonir at etholwyr cofrestredig dienw gael eu hanfon mewn amlen neu orchudd nad yw'n datgelu bod yr etholwr wedi'i gofrestru'n ddiennw.<sup>19</sup> Felly, dylech anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddiennw mewn amlen blaen. Ni ddylai'r datganiad pleidleisio drwy'r post gynnwys enw'r etholwr ychwaith.<sup>20</sup> Fel rhan o'ch paratodau ar gyfer anfon pleidleisiau post, dylech gytuno â'ch argraffwyr ar broses a fydd yn eich galluogi i wneud hyn. Bydd cofnodion y Swyddog Cofrestru Etholiadol o geisiadau a ganiatawyd yn cynnwys y cyfeiriad a ddewiswyd gan yr etholwr dienw ar gyfer anfon ei bleidlais bost iddo.

## Fersiynau dilynol o becynnau pleidleisio drwy'r post a anfonwyd

3.29 Ar ôl anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post ar y cam cychwynnol, bydd angen eu hanfon wedi hynny lle bydd etholwyr wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yn agos at y terfyn amser ar gyfer pleidleisio absennol, sef 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio.

3.30 Bydd unrhyw achos o anfon pecynnau o'r fath ar gam dilynol yn debygol o fod ar adeg sydd eisoes yn brysur yn amserlen yr etholiad.

3.31 Dylech sicrhau eich bod wedi cynllunio bod y trefniadau angenrheidiol ar waith i anfon a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post mor gyflym â phosibl.

3.32 Dylech sicrhau'r canlynol:

- Bod eich argraffydd yn ymwybodol o amserlenni trosglwyddo data a, lle y bo'n gymwys, ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post.
- Bod adnoddau ar gael i fonitro a gwirio'r broses gynhyrchu.
- Bod digon o staff i reoli'r broses, p'un a ydych yn dosbarthu pleidleisiau post yn fewnol, neu'n defnyddio darparwr allanol.

3.33 Dylech, hyd y gallwch, ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post i etholwyr unigol y tu allan i'r dyddiadau anfon a drefnwyd gennych. Er enghraifft, os dewch yn ymwybodol bod un neu fwy o etholwyr yn mynd i fod ar wyliau neu i ffwrdd ar fusnes erbyn i'r swp nesaf o bleidleisiau post a drefnwyd gael ei anfon. Dylech drefnu bod system ar waith i sicrhau y gallwch anfon sypiau ychwanegol nas trefnwyd.

## Dosbarthu pleidleisiau post â llaw

3.34 Gall amgylchiadau godi pan fydd angen i chi anfon pleidleisiau post yn bersonol (e.e. wrth ddisodli pecynnau pleidleisio drwy'r post a gollwyd neu a ddifethwyd, neu wrth gynnal swp dilynol a anfonwyd fel y disgrifir yn y paragraff uchod) a dylech felly gynllunio ar gyfer sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol, gan gynnwys sut y byddwch yn sicrhau y gall pecynnau pleidleisio drwy'r post o'r fath gael eu hargraffu a'u dosbarthu ar fyr rybudd.

## Nifer y sesiynau agor pleidleisiau post a'u hamseriad

3.35 Wrth gynllunio ar gyfer yr etholiadau, dylech nodi nifer y sesiynau agor pleidleisiau post y bydd eu hangen yn eich barn chi a phryd y dylid eu cynnal, a gwneud trefniadau ar eu cyfer fel sydd angen.

3.36 Bydd nifer y sesiynau agor pleidleisiau post sydd ei hangen arnoch yn dibynnu'n bennaf ar gyfanswm nifer y pleidleiswyr post sydd gennych a'ch nifer amcangyfrifedig o bleidleiswyr post. Dylai'r nifer amcangyfrifedig o bleidleiswyr post fod yn seiliedig ar y dybiaeth, fel gofyniad, na fydd nifer y pleidleiswyr post yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn y digwyddiadau pleidleisio cyfatebol diwethaf. Bydd yr adnoddau sydd gennych i gynnal y prosesau hyn, gan gynnwys nifer y staff a maint y lleoliad, hefyd yn ystyriaeth berthnasol.

3.37 Dylech hefyd ystyried patrymau cyfraddau dychwelyd mewn etholiadau blaenorol ac unrhyw beth a allai effeithio ar hyn.

3.38 Dylai eich sesiwn agor gyntaf ddigwydd o fewn ychydig ddiwrnodau i anfon y swp cyntaf. Hyd yn oed os nad ydych wedi derbyn nifer fawr o bleidleisiau post a ddychwelwyd erbyn hynny, dylech gynnal sesiwn o hyd ac achub ar y cyfle i brofi eich cyfarpar ac asesu eich llifau gwaith o dan amodau gwirioneddol. Ar ôl y sesiwn gyntaf hon dylech bennu a yw'ch amcangyfrif o nifer y sesiynau agor pleidleisiau post sy'n ofynnol yn ddigonol neu p'un a fydd angen ei ddiwygio. Nid oes unrhyw reswm dros beidio ag agor pleidleisiau post ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc, yn wir efallai y

byddwch am ystyried gwneud hynny, yn enwedig os bydd angen cynnal sesiynau agor pleidleisiau post ychwanegol.

3.39 Rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd i bob ymgeisydd, yn ysgrifenedig, o amser a lleoliad pob sesiwn agor ac uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisio drwy'r post y gellir eu penodi i fynychu sesiwn agor pleidleisiau post.<sup>21</sup>

# 4 Paratoi deunydd swyddfa pleidleisio drwy'r post

## Y rhestr rhif cyfatebol

4.1 Rhaid i chi lunio rhestr rhif cyfatebol i'w defnyddio wrth anfon pleidleisiau post. Rhagnodir y rhestr rhif cyfatebol a rhaid iddi gynnwys rhif y papur pleidleisio a marc adnabod unigryw pob papur pleidleisio.<sup>22</sup>

4.2 Rhaid selio'r rhestr rhif cyfatebol sy'n ymwneud â'r papurau pleidleisio a anfonwyd mewn pecyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post, a dim ond drwy orchymyn llys y gellir ei hagar a'i harchwilio.<sup>23</sup> Mae rhestrau newydd a phecynnau cysylltiedig yn ofynnol felly ar gyfer pob swp a anfonir. Gallai'r rhestr gael ei hargraffu ar un ochr a'i thorri yn y man lle y cafodd y papur pleidleisio olaf ei anfon ar gyfer unrhyw swp penodol o becynnau pleidleisio drwy'r post. Gellir wedyn ddefnyddio'r rhestr rhif cyfatebol sy'n weddill mewn unrhyw sesiynau cyhoeddi eraill ac ar gyfer y broses o gyhoeddi papurau pleidleisio drwy'r post newydd.

### Cyfuno

Pan gyfunir dau ddigwyddiad pleidleisio neu fwy ac rydych wedi cytuno i gyfuno anfon pleidleisiau post, bydd yn rhaid llunio rhestr rhif cyfatebol gyfunol a'i defnyddio wrth anfon pleidleisiau post. Bydd angen i chi ystyried sut y gwnewch lunio'r rhestr rhif cyfatebol gyfunol i'w defnyddio mewn pleidleisiau cyfunol yn ymarferol.

## Llunio deunydd ysgrifennu pleidleisiau post

4.3 Bydd angen i chi benderfynu a gaiff y broses o baratoi deunydd swyddfa ar gyfer pleidleisiau post ac anfon pleidleisiau post ei chynnal yn fewnol neu ar gontract allanol. Peidiwch â chymryd yn ganiataol mai contract allanol yw eich opsiwn gorau o ran paratoi ac anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post. Dylai unrhyw benderfyniad ynghylch contract allanol gael ei wneud fel rhan o asesiad o gostau, risgiau a manteision.



Rhoddir canllawiau er mwyn eich helpu i benderfynu p'un a ddylid trefnu contract allanol ai peidio, ac ar y broses gaffael a rheoli contractwyr a chyflenwyr os byddwch yn dewis gwneud hynny, yn

[Rhan B - Cynllunio a threfnu.](#)

4.4 Os ydych yn gosod y gwaith o baratoi pleidleisiau post ar gontract allanol, dylech sicrhau bod eich meddalwedd yn gallu cynhyrchu ffeil data y gall eich argraffwyr ei defnyddio i baratoi'r deunyddiau yn unol â'r fanyleb

ofynnol. Ar gam cynnar yn eich trafodaethau â chyflenwyr dylech nodi ym mha fformat y byddwch yn cyflenwi'r data ac ym mha fformat y byddant yn anfon unrhyw broflenni atoch, a dylai hyn gael ei nodi yn eich manyleb a'ch contract.

4.5 Dylech brofi'r broses drwy anfon data enghreifftiol i'r argraffwyr cyn i'r data 'go iawn' gael eu cyflwyno. Bydd hyn hefyd yn eich galluogi i ddatblygu rhagbroflenni, fel ei bod yn glir pa ran o'r data ddylai fynd ble ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r amlenni. Dylech hefyd ddylunio a phrofi'r datganiadau pleidleisio drwy'r post er mwyn sicrhau bod y blychau ar gyfer llofnod a dyddiad geni yn y man cywir ac yn y fformat cywir i'w prosesu gan eich system cadarnhau dynodyddion personol pan gânt eu dychwelyd.

## Gwirio'r broses argraffu

4.6 Dylai fod gennych broses ar waith i wirio proflenni byw, gan gynnwys y rhai ar gyfer dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post. Gallai sicrhau bod prosesau prawfddarllen cadarn ar waith helpu i ganfod unrhyw wallau ac osgoi achosion o dorri data cyn iddynt ddigwydd.

4.7 Yn arbennig, dylech sicrhau bod aelod o staff yn bresennol pan gaiff y pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hargraffu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau a'u bod yn cael eu hargraffu yn unol â'r fanyleb ofynnol.

4.8 Os yw'r broses argraffu ar gontract allanol, dylid cynnal trafodaethau ynghylch hwyluso'r gwiriadau hyn a sut y câi pecynnau newydd eu creu er mwyn cywiro unrhyw wallau ar adeg negodi'r contract a dylai unrhyw beth y cytunir arno gael ei adlewyrchu ynddo.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr. Hefyd, bydd angen i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr fel bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli contractwyr a chyflenwyr, yn ogystal â'r prosesau sydd ar waith gennych i brawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr.

4.9 Dylech wirio'r broses yn rheolaidd ac edrych i weld sut mae'r broflen wedi'i hatgynhyrchu ar y deunydd swyddfa gwirioneddol. Bydd hyn yn tynnu sylw at unrhyw broblemau o ran ansawdd yr argraffu ac a gafodd unrhyw broflenni a gymeradwywyd eu newid yn ddiotal. Er enghraifft, gallech wirio dechrau a diwedd y deunydd a argraffwyd ar gyfer pob dosbarth pleidleisio o ran cywirdeb. Gellid hefyd gynnal hapwiriadau o fewn dosbarthiadau pleidleisio er mwyn gallu gwirio trawstoriad cynrychioliadol.

4.10 Dylech lunio canllawiau ar gyfer y rhai a fydd yn gwirio deunydd swyddfa pleidleisio drwy'r post. Dylid rhoi sylw penodol i wirio'r canlynol:

- bod y marc swyddogol a'r marc adnabod unigryw yn ymddangos ar bob papur pleidleisio
- bod y papur(au) pleidleisio yn cynnwys manylion pob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys
- bod enwau a chyfeiriadau etholwyr yn gywir ar y datganiad pleidleisio drwy'r post ac amlenni i'w hanfon
- nad yw'r inc yn rhedeg a bod ansawdd yr argraffu'n dda ac yn gyson

4.11 Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn cadw cofnod o'r deunydd swyddfa a wiriwyd fel bod llwybr archwilio clir o'r prosesau a ddilynwyd ac y gallwch gyfeirio'n ôl atynt os bydd unrhyw beth yn codi wedyn.



Ceir canllawiau ar wirio'r broses anfon ym **Mhennod 5 Procedure for issuing and distributing postal votes.**

## Data personol a chontractwyr

4.12 Os anfonwch ddata pleidlais absennol at gontractwr er mwyn cynhyrchu pecynnau pleidleisiau post ar gyfer yr etholiad, rydych yn defnyddio prosesydd. Pan fydd rheolydd data yn defnyddio prosesydd, mae deddfwriaeth diogelu data yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol i ffurfioli'r gydberthynas waith mewn contract sy'n nodi'r canlynol:

- y pwnc, natur y prosesu a'i ddiben;
- rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd data;
- hyd y cyfnod prosesu; a
- y mathau o ddata personol a chategoriâu gwrthrychau'r data.

4.13 Hefyd, rhaid i'r contract nodi rhwymedigaethau penodol ar y prosesydd, gan gynnwys gwneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau
- bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- cadw data personol yn ddiogel a'ch hysbysu o unrhyw achos o dorri amodau
- cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu maent yn eu cyflawni ar eich rhan
- dim ond defnyddio is-brosesydd gyda'ch caniatâd
- ildio i archwiliadau ac arolygiadau a rhoi pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen arnoch i sicrhau y cydymffurfir â gofynion diogelu data
- dileu neu ddychwelyd unrhyw ddata personol fel y gofynnir amdanynt ar ddiwedd y contract.

4.14 Dylech sicrhau bod eich cytundeb/contract yn cadarnhau'n benodol:

- y dylai data cofrestru etholiadol a ddelir gan brosesydd gael eu dinistrio cyn gynted â phosibl ar ôl y diwrnod pleidleisio.

- na all gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol lawn gael ei datgelu ar unrhyw adeg, gan gadarnhau na fydd yn datgelu data i unrhyw un heb awdurdod
- ar ôl yr etholiad, y dychwelir unrhyw ddisgiau a chofnodion papur a roddwyd iddo gan ddirprwyon unrhyw gopiâu electronig neu bapur o'r data yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Cynnwys pecynnau pleidleisio drwy'r post

4.15 Rhaid i chi anfon pecyn pleidleisio drwy'r post at bob pleidleisiwr post cymwys.<sup>24</sup>

4.16 Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post gynnwys y canlynol:<sup>25</sup>

- amlen i anfon y deunydd
- amlenni dychwelyd: amlen 'A' (amlen y papur pleidleisio) ac amlen 'B' (yr amlen ar gyfer dychwelyd amlen 'A' a'r datganiad pleidleisio drwy'r post)
- y papur(au) pleidleisio
- y datganiad pleidleisio drwy'r post

### Cyfuno

Bydd nifer y papurau pleidleisio a'r math o bapurau pleidleisio a geir ym mhob pecyn pleidleisio drwy'r post yn dibynnu ar b'un a ydych wedi penderfynu cyfuno'r broses anfon ai peidio.

4.17 Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, rhaid i chi hefyd anfon at y rhai sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post y cyfryw wybodaeth ag sy'n briodol yn eich barn chi ynglŷn â sut i gael:.<sup>26</sup>

- cyfieithiadau o unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau i bleidleiswyr a anfonir gyda'r papur(au) pleidleisio, i ieithoedd eraill
- cyfieithiad o'r cyfarwyddiadau neu'r canllawiau i Braille
- cynrychioliad graffigol o'r cyfarwyddiadau neu'r canllawiau
- y cyfarwyddiadau neu'r canllawiau ar unrhyw ffurf arall (yn cynnwys sain)

## Amlenni

4.18 Rhaid i'r amlen a anfonir at yr etholwr gael ei gyfeirio at y cyfeiriad y mae wedi gofyn am i'w bapur pleidleisio gael ei anfon iddo ac a nodir yn y rhestr pleidleiswyr post neu'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post.<sup>27</sup>

4.19 Lle byddwch yn cyfathrebu ag etholwr dienw, mae'n ofynnol i chi anfon gohebiaeth mewn amlen neu fath arall o orchudd nad yw'n datgelu bod y pleidleisiwr yn ddiennw.<sup>28</sup> Felly, dylid anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddiennw mewn amlen blaen. Dylai'r amlen gynnwys eu henw a'u cyfeiriad gohebiaeth, ond ni ddylai gynnwys eu rhif etholwr na gwneud unrhyw gyfeiriad at yr etholiad na'r gofrestr etholiadol.

4.20 Er mwyn diogelu cyfrinachedd y bleidlais, rhaid i chi ddarparu dwy amlen wahanol ar gyfer dychwelyd y papur(au) pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post.<sup>29</sup>

- Amlen 'A' - hon yw'r amlen a ddefnyddir i ddychwelyd y papur(au) pleidleisio, gydag 'A', y geiriau 'amlen papur pleidleisio' a rhif y papur(au) pleidleisio arni.
- Amlen 'B' - hon yw'r amlen a ddefnyddir i ddychwelyd amlen y papur pleidleisio (amlen 'A') a'r datganiad pleidleisio drwy'r post. Dylid rhoi'r llythyren 'B' a'ch cyfeiriad arni.

## Cyfuno

Os ydych wedi penderfynu cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post, rhaid i rifau'r holl bapurau pleidleisio a anfonwyd at yr etholwr ymddangos ar amlen papur pleidleisio 'A'.

4.21 Dylech argraffu enw'r awdurdod lleol y mae angen dychwelyd y bleidlais bost iddo ar bob amlen 'A' a 'B' oherwydd bydd hyn yn helpu i leihau nifer yr achosion lle na ellir dosbarthu pleidleisiau post os, er enghraifft, bydd pleidleisiwr yn dychwelyd amlen 'A' â'r papur(au) pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post ynddi, heb ei rhoi yn amlen 'B'.

4.22 Oni fyddwch yn dosbarthu pleidleisiau post yn bersonol, mae'n ofynnol i chi ddefnyddio amlen ragdaledig a gyfeirir at y pleidleisiwr post. Mae hefyd yn ofynnol i chi ddarparu amlenni dychwelyd rhagdaledig, oni fydd angen anfon pleidleisiau post i gyfeiriad y tu allan i'r DU.<sup>30</sup> Fodd bynnag, dylech siarad â'r Post Brenhinol a'ch argraffydd er mwyn gweld beth y gellir ei wneud i hwyluso dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post a gwblhawyd yn brydlon o'r tu allan i'r DU, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnwys amlen ragdaledig briodol ar gyfer eitemau a ddychwelir o dramor.

4.23 Efallai y byddwch hefyd am ystyried defnyddio amlen â dyluniad gwahanol ar gyfer pleidleisiau post a anfonir i gyfeiriad y tu allan i'r DU. Er enghraifft, gallech ychwanegu fflach lliw gwahanol. Gallai hyn helpu i dddidoli, nodi a blaenoriaethu pleidleisiau post tramor yn fwy effeithlon.

## Y papur pleidleisio

4.24 Rhagnodir ffurf y papur pleidleisio mewn deddfwriaeth a rhaid dilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus.<sup>31</sup>



Ceir canllawiau ar argraffu papurau pleidleisio yn [Rhan C - Gweinyddu'r bleidlais](#).

## Datganiad pleidleisio drwy'r post

4.25 Nodir y datganiad pleidleisio drwy'r post yn y ddeddfwriaeth a rhaid ei lunio ar y ffurf ragnodedig, neu ar ffurf debyg.<sup>32</sup> Rhaid i'r datganiad pleidleisio



drwy'r post gynnwys enw'r pleidleisiwr (oni fydd yn ddiennw) a rhif(au) y papur(au) pleidleisio a anfonir gyda'r datganiad. Hefyd, rhaid i'r datganiad pleidleisio drwy'r post gynnwys y cyfarwyddiadau rhagnodedig ar gyfer y pleidleisiwr ar sut i bleidleisio drwy'r post. Rhaid i'r datganiad pleidleisio drwy'r post hefyd gynnwys cod bar.<sup>33</sup>

## Cyfuno

Os ydych wedi penderfynu cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post, rhaid i rifau'r holl bapurau pleidleisio a anfonwyd at yr etholwr ymddangos ar y datganiad pleidleisio drwy'r post.<sup>34</sup> Rhaid i'r cyfarwyddiadau ar gyfer y rhai sy'n pleidleisio drwy'r post gyfeirio at y rhifau hyn, ynghyd â lliw pob papur pleidleisio.

Os byddwch wedi penderfynu anfon pleidleisiau post ar wahân, rhaid i liw y papur pleidleisio drwy'r post gael ei nodi ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir gyda'r papur hwnnw. Hefyd, rhaid cyfeirio at liw y papurau pleidleisio priodol yn y cyfarwyddiadau ar gyfer pleidleiswyr post.<sup>35</sup>

4.26 Rhaid i chi lunio mathau gwahanol o ddatganiad pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholwyr diennw a'r rhai sydd wedi cael eu hepgor. Ni ddylai datganiad pleidleisio drwy'r post etholwyr diennw ddangos enw'r etholwr. Lle mae etholwr wedi cael ei hepgor gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, rhaid i chi ddileu'r blwch ar gyfer llofnod ac unrhyw gyfeiriad at lofnodi'r ffurflen yn y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr.<sup>36</sup>

## Cyfarwyddiadau ychwanegol i bleidleiswyr

4.27 Yn ogystal â'r cynnwys penodedig, dylech ystyried darparu cyfarwyddiadau ychwanegol, mwy penodol - er enghraifft, cyfarwyddiadau graffigol i bleidleiswyr i'w helpu i gwblhau'r datganiad a'r papur pleidleisio a dychwelyd deunydd eu pleidlais bost yn yr amlenni cywir. Fel rhan o'r cyfarwyddiadau hyn, dylech gynnwys gwybodaeth yn egluro natur bersonol y bleidlais, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ac y byddai unrhyw un sy'n ymyrryd â'r pleidleisiwr sy'n nodi ei bleidlais yn cyflawni trosedd. Dylech hefyd gynnwys gwybodaeth am sut i roi gwybod am unrhyw bryderon neu achosion o dwyll etholiadol a amheuir.

## Marcio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio

4.28 Er mwyn dangos bod gan etholwr yr hawl i bleidleisio drwy'r post ac na ddylai gael papur pleidleisio arferol mewn gorsaf bleidleisio, rhaid nodi 'A' ar gofrestr yr orsaf bleidleisio gan ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post.<sup>37</sup>

# 5 Y weithdrefn ar gyfer anfon a dosbarthu pleidleisiau post

## Pwy ddylai gael pleidlais bost?

5.1 Rhaid i'r canlynol gael pleidlais bost:<sup>38</sup>

- unrhyw etholwr sy'n ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post ar gyfer yr etholiad
- unrhyw ddirprwy sy'n ymddangos ar y rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiad

## Pwy all fod yn bresennol?

5.2 Yn ogystal â chi a'ch staff, caiff cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig fod yn bresennol pan anfonir pleidleisiau post.<sup>39</sup> Os ydych wedi gosod y broses o anfon pleidleisiau post ar gontract allanol, dylech sicrhau bod unrhyw un sydd â hawl i fod yn bresennol yn gallu cael mynediad i safle'r cwmni sy'n gyfrifol am hyn. Rhaid rhoi copi o'r [darpariaethau cyfrinachedd](#) perthnasol i unrhyw un sy'n bresennol mewn sesiwn anfon pleidleisiau post, gan gynnwys eich staff.<sup>40</sup>

## Gwirio'r broses anfon

5.3 P'un a ydych wedi gosod y gwaith o anfon pleidleisiau post ar gontract allanol ai peidio, chi sy'n parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth. Felly, dylech sicrhau bod gennych drefniadau ar waith sy'n eich galluogi i sicrhau ansawdd y broses gyfan.

5.4 Fel rhan o hyn, dylech sicrhau bod aelod o'ch staff yn bresennol pan gaiff pecynnau pleidleisio drwy'r post eu hanfon, gan ei gyfarwyddo i gynnal hapwiriadau rheolaidd yn ystod pob sesiwn er mwyn sicrhau, nid yn unig bod y manylion cywir yn ymddangos ar y deunydd swyddfa ond hefyd fod y pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u coladu'n gywir. Er enghraifft, gallech sicrhau bod y pecynnau pleidleisio drwy'r post yn gywir ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dosbarth pleidleisio. Gellid hefyd gynnal hapwiriadau o fewn dosbarthiadau pleidleisio er mwyn gallu gwirio trawstoriad cynrychioliadol.

5.5 Dylid rhoi sylw penodol i wirio'r canlynol:

- bod rhif y papur pleidleisio ar gefn y papur(au) pleidleisio yn cyfateb yn union i rif neu rifau'r papur pleidleisio a roddir ar y datganiad pleidleisio drwy'r post

- bod enw'r etholwr ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i enw'r etholwr ar yr amlen a anfonir ato
- bod yr holl eitemau gofynnol yn yr amlen sy'n cael ei hanfon

5.6 Os yw'r broses anfon ar contract allanol, dylid cynnal trafodaethau ynghylch hwyluso'r gwiriadau hyn ar adeg negodi'r contract a dylai unrhyw beth y cytunir arno gael ei adlewyrchu ynddo.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr. Hefyd, bydd angen i chi sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr fel bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli contractwyr a chyflenwyr, yn ogystal â'r prosesau sydd ar waith gennych i brawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr.

## Y broses anfon

5.7 Nodir y prosesau i'w dilyn wrth anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post mewn deddfwriaeth:

- Rhaid nodi rhif yr etholwr ar y rhestr(au) rhif cyfatebol, wrth ymyl rhif a marc adnabod unigryw'r papur pleidleisio sy'n berthnasol i'r papur(au) pleidleisio i'w anfon/hanfon at yr etholwr hwnnw.<sup>41</sup>
- Rhaid i rif y papur(au) pleidleisio drwy'r post gael ei gynnwys ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir gyda'r papur(au) pleidleisio.<sup>42</sup>
- Y cyfeiriad y dylid anfon y pecyn pleidleisio drwy'r post iddo yw'r cyfeiriad a nodir yn y rhestr pleidleiswyr post berthnasol. Yn achos dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post, dyma'r cyfeiriad a nodir yn y rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post. Yn achos etholwr dienw, gellir dod o hyd i'r cyfeiriad yn y cofnodion o geisiadau a ganiatawyd.<sup>43</sup>
- Rhaid rhoi marc yn y rhestr pleidleiswyr post (neu'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post efallai) i nodi bod pecyn pleidleisio drwy'r post wedi'i anfon.<sup>44</sup>
- Mewn pecyn, rhaid i chi selio'r rhestr(au) rhifau cyfatebol sy'n ymwneud â'r papurau pleidleisio a anfonwyd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob sesiwn. Dim ond drwy orchymyn llys y gellir agor ac archwilio'r pecynnau hyn.<sup>45</sup> Felly, mae angen rhestrau a phecynnau newydd ym mhob sesiwn anfon. Fodd bynnag, gellid argraffu'r rhestr(au) ar un ochr a'u torri ar ôl i'r papur pleidleisio olaf gael ei anfon fel bod modd defnyddio gweddill y rhestr yn y sesiwn anfon nesaf.

5.8 Mae siart llif sy'n crynhoi camau'r broses anfon ar gael er mwyn eich helpu i reoli'r broses hon.

5.9 Dylech gadw llwybr archwilio clir ar gyfer anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fel rhan o hyn, dylech sicrhau bod nifer y pleidleisiau post a anfonir yn cael ei chofnodi'n gywir ar ddiwedd pob sesiwn anfon ac wrth anfon

pecynnau pleidleisio drwy'r post newydd. Bydd angen y rhifau hyn er mwyn cwblhau'r datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post.

## Cyfuno

Mae'n ofynnol i chi gwblhau datganiad ar wahân ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob etholiad.

Bydd angen datganiadau ar wahân hyd yn oed lle mae'r broses o anfon papurau pleidleisio drwy'r post wedi'i chyfuno.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post. Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cadw llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post.

5.10 Os nad ydych yn dosbarthu'r pecynnau pleidleisio drwy'r post yn bersonol, dylech wneud trefniadau i drosglwyddo'r pecynnau pleidleisio drwy'r post i'r Post Brenhinol neu gwmni dosbarthu masnachol yn ddiogel. Dylech sicrhau bod gweithdrefn a llwybr archwilio clir ar waith ar gyfer hyn.

5.11 Rhaid anfon pleidleisiau post cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, unwaith y bydd y terfyn amser ar gyfer tynnu enw yn ôl wedi mynd heibio, dylid anfon papurau pleidleisio drwy'r post at etholwyr presennol sydd wedi gwneud cais am bleidlais bost. Dylech roi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod etholwyr yn cael eu papurau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl a blaenoriaethu unrhyw bleidleisiau post y gall fod angen eu hanfon dramor er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr post yn cael cymaint o amser â phosibl i dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais drwy'r post.

5.12 Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dau hysbysiad newid etholiad interim cyn cyhoeddi'r hysbysiad newid etholiad terfynol ar y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Mae hyn yn cefnogi dosbarthu pleidleisiau post ar gam cynnar yn yr amserlen i'r etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais i gofrestru yn agos at y terfyn amser ar gyfer cofrestru, oherwydd dim ond rhywun sydd eisoes wedi'i ychwanegu at y gofrestr a all dderbyn pleidlais bost.

5.13 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech gysylltu ag ef er mwyn cael gwybodaeth am unrhyw etholwyr newydd sydd wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi'r ffordd y dosberthir pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny.



Ceir rhagor o wybodaeth am hysbysiadau interim yn [Rhan 4 – cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

### Refferenda cynllunio cymdogaeth

Mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol a lle nad yw'r broses o anfon pleidleisiau post wedi ei chyfuno, rhaid i'r Prif Swyddog Cyfrif sicrhau, cyhyd ag y bo'n ymarferol, fod pleidleisiau post yn cael eu hanfon ar yr un dyddiad ym mhob awdurdod lleol yn ardal y refferendwm.<sup>46</sup>

## Ail-anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post

5.14 Gellir ail-anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post o dan yr amgylchiadau canlynol:

- yn lle papur neu bapurau pleidleisio drwy'r post a/neu ddatganiad pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd
- yn lle pecyn pleidleisio drwy'r post a gollwyd neu nas derbyniwyd
- er mwyn cywiro gwall gweithdrefnol

### Y weithdrefn ar gyfer ail-anfon pleidleisiau post a ddifethwyd

5.15 Os bydd unigolyn yn difetha ei bapur(au) pleidleisio drwy'r post a/neu ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post, mae'n bosibl cael pecyn pleidleisio drwy'r post newydd. Gellir anfon pecyn newydd hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio.<sup>47</sup>

5.16 Os gwneir y cais am becyn pleidleisio drwy'r post newydd rhwng 5pm ar y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio a 5pm ar y diwrnod pleidleisio ei hun, gellir ond roi'r bleidlais bost newydd i'r etholwr os dychwelir y dogfennau a ddifethwyd yn bersonol. Mewn achosion o'r fath, dim ond yn bersonol y gellir cyflwyno pecyn newydd.<sup>48</sup>

5.17 Rhaid i chi allu anfon pecynnau pleidleisio newydd hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac felly bydd angen i chi roi systemau ar waith er mwyn sicrhau y gallwch wneud hynny. Bydd angen rhoi sylw penodol i hyn lle mae'r gwaith o anfon pleidleisiau post ar contract allanol.

5.18 Bydd angen i chi ystyried p'un a oes angen i drefniadau penodol gael eu rhoi ar waith ar gyfer etholwyr anabl wrth wneud trefniadau ynghylch ail-anfon papurau pleidleisio a ddifethwyd, oherwydd gall fod rhai etholwyr na allant ddod i'r swyddfa etholiadau oherwydd anabledd.

5.19 Cyn anfon pecyn newydd, rhaid dychwelyd y papur(au) pleidleisio a ddifethwyd neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd atoch, ynghyd â'r papur(au) pleidleisio neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post, amlen dychwelyd 'B' ac amlen papur pleidleisio 'A', waeth p'un a gawsant eu dinistrio ai peidio.<sup>49</sup>

## Cyfuno

Os ydych wedi penderfynu cyfuno'r broses o anfon pleidleisiau post, rhaid dychwelyd yr holl bapurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad, waeth p'un a oes unrhyw rai o'r rhain wedi'u difetha ai peidio.<sup>50</sup>

5.20 Yna gellir anfon pecyn pleidleisio drwy'r post newydd at yr etholwr.

5.21 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ganslo unrhyw bapurau pleidleisio a datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a gaiff eu dychwelyd a'u selio mewn pecyn ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd, hyd yn oed os mai dim ond un ohonynt a ddifethwyd mewn gwirionedd.<sup>51</sup>

5.22 Rhaid ychwanegu enw a rhif etholiadol yr etholwr at y rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd er mwyn dangos bod y bleidlais bost a ddifethwyd wedi cael ei chanslo. Fodd bynnag, nid oes hawl ychwanegu'r enw os yw'r etholwr wedi'i gofrestru'n ddiennw. Rhaid hefyd ychwanegu rhif papur pleidleisio'r papur pleidleisio newydd at y rhestr. Yn achos pleidlais bost drwy ddirprwy, rhaid i enw a chyfeiriad y dirprwy gael eu hychwanegu at y rhestr ynghyd â'r manylion eraill. Rhaid i chi hefyd ychwanegu manylion unrhyw bapurau pleidleisio a ddifethwyd a ganslwyd at y rhestr o'r holl bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd (gweler paragraff **5.55**).<sup>52</sup>

5.23 Mae [siart llif sy'n crynhoi'r weithdrefn](#) ar gyfer ailanfon pleidleisiau post a ddifethwyd ar gael i chi ei defnyddio er mwyn cefnogi'r broses hon.

## Y weithdrefn ar gyfer ailanfon pleidleisiau post a gollwyd/nas derbyniwyd

5.24 Pan fydd pleidleisiwr yn honni ei fod naill ai wedi colli ei bapur(au) pleidleisio drwy'r post, ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post neu amlenni 'A' a/neu 'B', mae'n bosibl anfon pecyn pleidleisio drwy'r post newydd o 4 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio.<sup>53</sup>

5.25 Os gwneir y cais am becyn pleidleisio drwy'r post newydd rhwng 5pm ar y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio a 5pm ar y diwrnod pleidleisio ei hun, rhaid i'r pleidleisiwr wneud cais yn bersonol a dim ond â llaw y gellir cyflwyno pecyn newydd.<sup>54</sup>

5.26 Rhaid i chi ail-anfon pecyn pleidleisio drwy'r post os ydych yn fodlon ar bwy yw'r pleidleisiwr ac nad oes gennych unrhyw reswm dros amau na wnaeth gollu neu dderbyn y pecyn pleidleisio drwy'r post gwreiddiol.<sup>55</sup> Er mwyn sefydlu pwy yw'r pleidleisiwr drwy'r post, dylid cymryd camau cymesur sy'n ceisio defnyddio rhyw brawf adnabod y gellir ei gadarnhau'n hawdd gan staff, ond nad yw'n rhy feichus ar yr etholwr.

5.27 Dylech ystyried p'un a oes angen i drefniadau penodol gael eu gwneud ar gyfer yr etholwyr hynny na allant ddod i'r swyddfa etholiadau'n bersonol, er enghraifft oherwydd anabledd neu am eu bod dramor. Er enghraifft, gallech ystyried derbyn copïau wedi'u sganio o brawf adnabod a restrir isod ym mharagraff **5.31** drwy e-bost, neu ddefnyddio technoleg fideo-alw.

5.28 Os na fydd pob rhan o'r pecyn pleidleisio drwy'r post wedi'i cholli neu wedi dod i law, rhaid i'r etholwr ddychwelyd y dogfennau hynny sydd ganddo. Yna, mae'n ofynnol i chi ganslo'r dogfennau hynny ar unwaith.<sup>56</sup>

5.29 Caiff pleidleiswyr ffonio eich swyddfa i holi am becyn pleidleisio drwy'r post newydd os nad yw eu pleidlais bost wedi cyrraedd. Os felly, dylai eich staff eu hysbysu am y weithdrefn ar gyfer ail-anfon pecyn ac egluro pa brawf adnabod y bydd ei angen cyn yr anfonir pecyn pleidleisio drwy'r post newydd.

5.30 Isod nodir cyfres o argymhellion ynghylch prawf adnabod y dylech eu hystyried wrth bennu sut i fodloni'ch hun ynghylch pwy yw etholwr sy'n ceisio cael pecyn pleidleisio drwy'r post newydd.

### **Argymhelliad 1**

5.31 Dylid darparu un prawf adnabod sylfaenol cyn anfon pecyn pleidleisio drwy'r post newydd. Dylai fod yn ddogfen swyddogol sy'n cynnwys llun yr etholwr, ynghyd ag enw'r etholwr. Y ddwy enghraifft fwyaf diogel yw:

- pasbort
- trwydded yrru cerdyn-llun

5.32 Gellir derbyn dogfennau eraill fel prawf sylfaenol, cyhyd â bod llun wedi'i selio arnynt. Ymhlith y rhain mae:

- tocyn bws lleol
- cerdyn myfyriwr a gyhoeddwyd gan gorff addysg bellach neu addysg uwch cydnabyddedig
- cerdyn adnabod a gyhoeddwyd gan gyflogwr cydnabyddedig

5.33 Efallai na fydd rhai etholwyr yn gallu cyflwyno prawf adnabod ar ffurf llun. O dan yr amgylchiadau hyn, argymhellir y dylid gofyn iddynt ddarparu dwy enghraifft o'r rhestr o brofion adnabod eilaidd a nodir isod.

### **Argymhelliad 2**

5.34 Os byddwch yn dal i amau pwy yw etholwr sy'n gwneud cais am becyn pleidleisio drwy'r post newydd, gellid gofyn am brawf adnabod eilaidd. Hefyd, os na all etholwr gyflwyno prawf adnabod sylfaenol, gellid gofyn am ddau brawf adnabod eilaidd.



### 5.35 Ymhlith y rhain mae:

- Trwydded yrru lawn (heb lun).
- Llyfr talu'r dreth gyngor neu fil treth gyngor diweddar.
- Llyfr rhent y cyngor neu landlord cymdeithasol.
- Derbynebaw rhent diweddar neu gytundeb tenantiaeth.
- Llyfr lwfansau/budd-daliadau/pensiwn a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Llyfr sieciau/cerdyn siec/llyfr Cynilion Cenedlaethol.
- Cyfriflen ddiweddar gan y banc neu gymdeithas adeiladu (nid cyfriflen cerdyn siop)
- Bil cyfleustodau diweddar (mae'n well dangos dau wahanol; nid bil ffôn symudol).
- P45.
- Gohebiaeth gan un o adrannau'r llywodraeth.
- cerdyn adnabod a gyhoeddwyd gan un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeidd/Ardal Economaidd Ewropeidd, dogfen deithio a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, neu dystysgrif dinasyddio neu gofrestru.
- Llythyr (datganiad a ardystiwyd) gan unigolyn cyfrifol megis cyfreithiwr, meddyg, gweinidog crefydd, ynad, athro, rheolwr hostel, gweithiwr cymdeithasol, nyrs ardal, bydwaig neu unigolyn cyfrifol arall, sy'n dweud ei fod yn adnabod yr etholwr ac y gall gadarnhau ei enw a'i gyfeiriad. Gallech gynnwys landlord neu denant yr etholwr yn y categori hwn, ac efallai nodi eu bod ar y gofrestr etholiadol.
- cerdyn meddygol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu gerdyn Yswiriant Gwladol.
- Tystysgrifau geni, mabwysiadu, priodas, partneriaeth sifil, ysgariad neu dystysgrif datganiad statudol (o ddewis, dylid bod wedi eu cyhoeddi o fewn chwe mis i'r digwyddiad y maent yn ymwneud ag ef ac ni ddylent fod yn gopïau newydd).

### 5.36 Dylid hefyd ystyried y pwyntiau canlynol:

- Er sicrwydd pellach, dylid dangos copïau gwreiddiol, nid llungopïau, o'r prawf adnabod.
- Dylai'r dystiolaeth a ddarperir gan y pleidleisiwr ddangos cysylltiad clir rhwng yr enw ar y ddogfen adnabod a'r cofnod cyfredol ar y gofrestr etholiadol.
- Nid yw tystysgrifau geni yn brawf adnabod diamod ac felly gellir gofyn i'r pleidleisiwr ddarparu tystiolaeth ychwanegol er mwyn gallu cadarnhau pwy ydyw.
- Lle y darperir biliau cyfleustodau neu gyfriflenni banc, dylent fod yn ddiweddar (h.y., wedi'u cyhoeddi yn y tri mis diwethaf).
- Dylid gwirio cardiau siec, banc neu gredyd yn erbyn llofnod y pleidleisiwr.
- Cyn ceisio ardystiad, dylid hysbysu'r pleidleisiwr y gall rhai llofnodyddion godi ffi am y gwasanaeth.
- Dylech nodi na chedwir unrhyw brofion adnabod ac y caiff y dogfennau eu trin yn gyfrinachol ac y dychwelir y copïau gwreiddiol.

5.37 Nid yw deddfwriaeth diogelu data yn nodi unrhyw uchafswm penodol ar gyfer cadw data personol, ond mae'n nodi na chaiff data personol a brosesir at unrhyw ddiben eu cadw am fwy nag sydd angen at y diben hwnnw.

5.38 Pan fyddwch yn ailanfon pleidlais bost am iddi gael ei cholli neu nas derbyniwyd, rhaid i chi ychwanegu enw a rhif etholiadol yr etholwr at y rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd. Fodd bynnag, nid oes hawl ychwanegu'r enw os yw'r etholwr wedi'i gofrestru'n ddienw. Rhaid hefyd ychwanegu rhif papur pleidleisio'r papur(au) pleidleisio newydd at y rhestr. Yn achos dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post, rhaid i enw a chyfeiriad y dirprwy gael eu hychwanegu at y rhestr ynghyd â'r manylion eraill. Rhaid i chi hefyd ychwanegu manylion unrhyw bapurau pleidleisio a gollwyd ac a ganslwyd at y rhestr o'r holl bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd (gweler paragraff **5.55**).<sup>57</sup>

5.39 Mae siart llif sy'n crynhoi'r weithdrefn ar gyfer [ail-anfon pleidleisiau post a gollwyd/nas derbyniwyd](#) ar gael i chi ei defnyddio er mwyn cefnogi'r broses hon.

## Y weithdrefn ar gyfer ail-anfon oherwydd gwall gweithdrefnol

5.40 Os ydych wedi anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post anghywir neu anghyflawn mewn camgymeriad, efallai y gallwch ail-anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post gan ddefnyddio eich pwerau i gywiro gwall gweithdrefnol.<sup>58</sup>

5.41 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd angen i chi benderfynu p'un a ddylid ail-anfon rhai o'r pecynnau pleidleisio drwy'r post neu bob un. Er enghraifft, os effeithiodd gwall yn y broses gasglu ar amrywiaeth benodol o becynnau, dim ond y pecynnau hynny fyddai angen eu hailanfon.

5.42 Dylid gwneud penderfyniadau am ail-anfon oherwydd gwall gweithdrefnol fesul achos. Ym mhob achos, dylid ystyried effaith bosibl y gwall ac unrhyw gamau cywirol ar etholwyr. Er enghraifft, bydd angen i chi sicrhau y bydd unrhyw gamau gweithredu yn unioni'r gwall ac na fyddant yn peri dryswch ychwanegol neu wall gwahanol.

5.43 Dylid gwneud unrhyw benderfyniad i unioni gwall gweithdrefnol ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol. Dylid dogfennu'r gwall ac unrhyw gamau cywirol rhag ofn y caiff yr etholiad ei herio a bod angen gwneud hawliad yn erbyn yswiriant.

5.44 Pa gamau bynnag a gymerir, dylech sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a roddir i'r etholwyr hynny yr effeithiwyd arnynt yn egluro'r gwall a'r camau rydych yn eu cymryd i'w unioni. Dylech hefyd hysbysu ymgeiswyr ac asiantiaid am y gwall a'ch camau cywirol bwriadedig cyn gynted â phosibl.

Drwy fod yn dryloyw am y broblem a'r ateb byddwch yn lleihau'r risg o golli hyder yn y broses o weinyddu'r etholiad.

5.45 Pan fydd pleidlais bost wedi'i hailanfôn o ganlyniad i wall gweithdrefnol, rhaid canslo'r papur(au) pleidleisio gwreiddiol, ei ychwanegu/eu hychwanegu at y rhestr o bapurau pleidleisio a ganslwyd ac ni chaiff ei gyfrif neu ni chânt eu cyfrif.



Gweler [Rhan A: Rolau a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau](#) am ragor o fanylion am eich pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol.

## Canslo pecynnau pleidleisio drwy'r post

5.46 Gan fod yn rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfôn at etholwyr cyn gynted â phosibl, gall fod amgylchiadau lle bydd unigolyn rydych eisoës wedi anfon papur(au) pleidleisio drwy'r post ato yn gwneud cais dilynol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am i'w bleidlais bost gael ei chanslo, neu'n gwneud newidiadau i'w drefniadau pleidleisio absennol, mewn da bryd i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith cyn yr etholiad(au). Os felly, ar ôl i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eich hysbysu, rhaid i chi ganslo unrhyw bapur(au) pleidleisio drwy'r post a anfonwyd at y fath etholwr neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post ar unwaith ac ychwanegu manylion y papur(au) pleidleisio a ganslwyd at y rhestr a gedwir at y diben hwnnw (gweler paragraff **5.55**).<sup>59</sup>

5.47 Os bydd y newid i'r trefniadau pleidleisio absennol ond yn ymwneud â'r cyfeiriad y dylid anfon y papurau pleidleisio iddo, rhaid i chi, yn ogystal â chanslo'r papur(au) pleidleisio drwy'r post gwreiddiol anfon pecyn pleidleisio drwy'r post newydd i'r cyfeiriad newydd.<sup>60</sup>

5.48 Dylech wneud trefniadau ar gyfer delio ag achos o ganslo ar ôl anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys:

- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, cytuno ag ef sut y caiff unrhyw geisiadau am newid trefniadau pleidleisio absennol eu cyfleu mewn modd amserol fel eich bod yn gwybod pa bapur(au) pleidleisio y mae angen ei ganslo neu eu canslo
- sut y byddwch yn gallu adfer a chanslo unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post a datganiadau pleidleisio drwy'r post sy'n mynd drwy'r broses agor pleidleisiau post neu sydd eisoës wedi mynd drwy'r broses honno
- sut y byddwch yn cadw llwybr archwilio o'r hyn a ganslwyd, gan gynnwys sut y gellir defnyddio eich system meddalwedd i gofnodi pob achos o ganslo er mwyn eich galluogi i lunio'r rhestr ofynnol o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd (gweler paragraff **5.55**) a nodi unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd ond a ddychwelwyd ac felly y mae angen eu hadalw

- sut y byddwch yn egluro'r hyn sy'n digwydd i ymgeiswyr ac asiantiaid mewn sesiwn agor lle mae angen i chi adalw a chanslo papur pleidleisio drwy'r post

5.49 Rhaid i chi hefyd ganslo unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd neu a gollwyd y bu'n rhaid i chi anfon rhai newydd yn eu lle (gweler paragraffau **5.21** a **5.28**)<sup>61</sup>

## Adalw pleidleisiau post a ganslwyd

5.50 Lle cafodd unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post eu canslo, rhaid i'r datganiad pleidleisio drwy'r post a'r papur(au) pleidleisio, lle cawsant eu dychwelyd, gael eu hadalw fel nad ydynt yn cael eu cyfrif. Rhaid i chi sicrhau bod y blwch pleidleisio drwy'r post yn cael ei ail-selio ym mhresenoldeb unrhyw asiantiaid sy'n bresennol pan fydd y papurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd wedi cael eu hadfer o'r blwch pleidleisio drwy'r post<sup>62</sup>

5.51 Mae [siart llif sy'n crynhoi'r weithdrefn i'w dilyn er mwyn adalw](#) pleidlais bost a ganslwyd ar gael.

## Cadw cofnodion

5.52 Rhaid i chi gofnodi manylion pob papur pleidleisio drwy'r post a ganslwyd. Ceir rhestr ar wahân y mae'n rhaid ei llunio ar gyfer pob categori; rhestr o bapurau pleidleisio a ddifethwyd, rhestr o bapurau pleidleisio a gollwyd a rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd.

### Rhestr o bapurau pleidleisio a ddifethwyd

5.53 Rhaid i'r rhestr o bapurau pleidleisio a ddifethwyd gynnwys<sup>63</sup>:

- enw a rhif yr etholwr fel y'u nodir ar y gofrestr (neu, yn achos etholwr â chofnod dienw, dim ond ei rif etholiadol)
- os mai dirprwy yw'r pleidleisiwr post y difethwyd ei bapur pleidleisio, enw a chyfeiriad y dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post
- rhif y papur pleidleisio drwy'r post newydd

### Rhestr o bapurau pleidleisio a gollwyd

5.54 Rhaid i'r rhestr o bapurau pleidleisio a gollwyd gynnwys<sup>64</sup>:

- enw a rhif yr etholwr fel y'u nodir ar y gofrestr (neu, yn achos etholwr â chofnod dienw, dim ond ei rif etholiadol)
- os mai dirprwy yw'r pleidleisiwr post y collwyd ei bapur pleidleisio, enw a chyfeiriad y dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post
- rhif y papur pleidleisio drwy'r post newydd

### Rhestr o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd o ganlyniad i unrhyw newid i drefniadau pleidleisio absennol ar ôl i bleidlais bost gael ei hanfon

5.55 Rhaid i'r rhestr hon o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd gynnwys:<sup>65</sup>

- enw a rhif yr etholwr fel y'u nodir ar y gofrestr (neu, yn achos etholwr â chofnod dienw, dim ond ei rif etholiadol)
- os mai dirprwy yw'r pleidleisiwr post y canslwyd ei bapur pleidleisio, enw a chyfeiriad y dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post
- rhif y papurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd
- rhif y papurau pleidleisio drwy'r post newydd

5.56 Rhaid i gynnwys unrhyw becyn pleidleisio drwy'r post a ganslwyd, gan gynnwys unrhyw amlenni, gael eu gwneud yn becyn a'u selio. Dim ond er mwyn cynnwys dogfennau ychwanegol a ganslwyd yn y pecyn yr agorir y sêl.<sup>66</sup>

# 6 Derbyn ac agor pleidleisiau post

## Derbyn pleidleisiau post

6.1 Er mwyn i becyn pleidleisio drwy'r post fod wedi'i ddychwelyd yn briodol, rhaid eich bod wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Caniateir i unigolyn ddychwelyd pecyn pleidleisio drwy'r post os yw, am 10pm, mewn ciw y tu mewn i'r orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio at ddiben cyflwyno pecyn pleidleisio drwy'r post.<sup>67</sup>

6.2 Gellir ond dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post:<sup>68</sup>

- atoch chi fel y Swyddog Canlyniadau, â llaw neu drwy'r post, neu
- â llaw i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol berthnasol (ar gyfer diffiniad o ardal etholiadol, gweler [Rhan A - rôl a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau](#)).

### Cyfuno

Lle cyfunwyd y gwaith o anfon papurau pleidleisio drwy'r post, gellir ond dychwelyd pleidleisiau post i'r rhan honno o'r ardal etholiadol sy'n gyffredin i'r holl ddigwyddiadau pleidleisio cyfunol yr anfonwyd papurau pleidleisio drwy'r post mewn perthynas â hwy.<sup>69</sup>



Ceir rhagor o ganllawiau ar ddelio â phleidleisiau post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio ym mhennod 5 o [Ran C - Gweinyddu'r bleidlais](#).

6.3 Dylech gysylltu â'r Post Brenhinol er mwyn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer dychwelyd pleidleisiau post ac unrhyw archwiliadau terfynol i'w cynnal ar y diwrnod pleidleisio.

## Blychau pleidleisio drwy'r post a pheccynnau

6.4 Dylech sicrhau bod y pleidleisiau post a ddychwelwyd yn cael eu storio'n ddiogel drwy'r amser a dylech sicrhau bod y papurau pleidleisio drwy'r post yn cael eu cludo'n ddiogel i'r lleoliadau agor a dilysu a chyfrif.<sup>70</sup> Dylai'r dulliau o storio a chludo olygu y gallwch fod yn fodlon eich bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd yn cael eu cadw'n ddiogel ac na ellir ymyrryd â hwy.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod papurau pleidleisio a phhecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi roi nodi eich trefniadau ar gyfer cadw papurau pleidleisio a phhecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel.

6.5 Rhaid i unrhyw bleidleisiau post sy'n dod i law, naill ai yn eich swyddfa neu yn yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gael eu cadw mewn blychau priodol. Rhaid i chi roi'r mesurau priodol ar waith ar gyfer cadw'r blychau hyn yn ddiogel.<sup>71</sup>

6.6 Mae angen dau fath o flwch pleidleisio ar gyfer pleidleisiau post a ddychwelwyd: y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post a'r blwch pleidleisio drwy'r post.

### **Agor y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post**

6.7 Defnyddir y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post i storio unrhyw amlenni ar gyfer pleidleisiau post a ddychwelwyd. Rhaid i unrhyw bapurau pleidleisio drwy'r post, datganiadau pleidleisio drwy'r post neu amlenni papurau pleidleisio na chânt eu derbyn fel pecyn cyflawn hefyd gael eu rhoi yn y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post. Rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio i bleidleiswyr post' ac enw'r ardal etholiadol berthnasol ar holl flychau pleidleisio pleidleiswyr post.<sup>72</sup>

### **Cyfuno**

Lle cyfunwyd y gwaith o anfon a derbyn pleidleisiau post, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio i bleidleiswyr post' ac enwau'r holl ardaloedd etholiadol perthnasol ar flychau pleidleisio pleidleiswyr post.<sup>73</sup>

### **Refferenda maerol ac etholiadau maerol awdurdodau lleol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio i bleidleiswyr post' ac enw'r ardal etholiadol berthnasol ar flychau pleidleisio'r holl bleidleiswyr post'.<sup>74</sup>

### **Refferenda cynllunio cymdogaeth**

Yn achos refferendwm cynllunio cymdogaeth, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio i bleidleiswyr post' ac enw'r ardal etholiadol berthnasol ar flychau pleidleisio pleidleiswyr post.<sup>75</sup>

### **Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio i bleidleiswyr post' ac enw ardal yr awdurdod cyfunol ar flychau pleidleisio pleidleiswyr post.<sup>76</sup>

6.8 Mae'n ofynnol i chi gymryd y mesurau priodol er mwyn sicrhau bod blwch pleidleisio i bleidleiswyr post yn cael ei gadw'n ddiogel.<sup>77</sup> Rhaid i chi sicrhau bod pleidleisiau post yn cael eu cadw'n ddiogel drwy'r amser a sicrhau bod cynnwys blwch pleidleisio i bleidleiswyr post yn ddiogel drwy ei selio a'i gadw mewn man diogel hyd nes y bwriedir agor pleidleisiau post nesaf.

### **Blychau pleidleisio drwy'r post**

6.9 Defnyddir blychau pleidleisio drwy'r post i storio'r papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac a gaiff eu cyfrif. Mae'n ofynnol i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ar bob blwch pleidleisio drwy'r post ynghyd ag enw'r ardal etholiadol berthnasol.<sup>78</sup>

### **Cyfuno**

Lle cyfunwyd y gwaith o anfon a derbyn pleidleisiau post, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ac enwau'r holl ardaloedd etholiadol perthnasol ar flychau pleidleisio pleidleiswyr post ar y blychau pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac sy'n mynd ymlaen i'r broses gyfrif.<sup>79</sup>

### **Etholiadau maerol awdurdodau lleol/refferenda maerol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ac enw'r awdurdod lleol ar yr holl flychau pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac sy'n mynd ymlaen i'r broses gyfrif.<sup>80</sup>

### **Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ac enw ardal yr awdurdod cyfunol ar yr holl flychau pleidleisio drwy'r post sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac sy'n mynd ymlaen i'r broses gyfrif.<sup>81</sup>

### **Refferenda cynllunio cymdogaeth**

Yn achos refferendwm cynllunio cymdogaeth, rhaid i chi roi'r geiriau 'blwch pleidleisio drwy'r post' ac enw ardal y refferendwm sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac sy'n mynd ymlaen i'r broses gyfrif.<sup>82</sup>

6.10 Mae'n ofynnol i chi selio pob blwch pleidleisio drwy'r post a'i gadw'n ddiogel hyd nes y cynhelir y broses gyfrif. Mae gan unrhyw asiantiaid sy'n bresennol mewn sesiwn agor pleidleisiau post yr hawl i ychwanegu eu seliau at flychau pleidleisio drwy'r post os dymunant.<sup>83</sup>

6.11 Yn achos pleidleisiau post a gyflwynir mewn gorsafoedd pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, dylech bwysleisio wrth staff yr orsaf bleidleisio, gan gynnwys arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, bwysigrwydd cadw pleidleisiau post a ddychwelwyd yn ddiogel drwy'r amser. Dylech roi trefniadau ar waith i gasglu pleidleisiau post o orsafoedd pleidleisio ar adegau gwahanol yn ystod



y diwrnod pleidleisio. Bydd hyn yn osgoi cael symiau mawr o'r pleidleisiau post hyn yn y cyfrif a dylai helpu i leihau'r risg o orfod gohirio dechrau'r broses gyfrif. Dylech sicrhau bod gan orsafoedd pleidleisio ddigon o becynnau ar gyfer pleidleisiau post a dderbyniwyd. Dylai'r pecynnau hyn nodi'n glir eu bod yn cynnwys pleidleisiau post a dylent gynnwys enw'r orsaf pleidleisio a dynodydd yr orsaf pleidleisio.



Rhoddir rhagor o ganllawiau ar ddelio â phleidleisiau post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio ym [Mhennod 5 o Ran C - Gweinyddu'r bleidlais](#) a [llwyfr gorsafoedd pleidleisio](#) y Comisiwn.

## Cadw cofnodion

6.12 Dylech gadw llwybr archwilio clir ar gyfer derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gofnodi cyfanswm nifer yr amlenni a dderbyniwyd a nifer yr amlenni a gyfrifwyd fel rhan o'r broses agor gan sicrhau bod pob ffigur sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r datganiad o ran y papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u cofnodi'n gywir.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad bydd angen i chi nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cadw llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post.

6.13 Er mwyn cadw llwybr archwilio clir dylech gadw cofnod o gyfanswm nifer yr amlenni a dderbyniwyd yn eich swyddfa ac a roddwyd mewn blwch pleidleisio i bleidleiswyr post a defnyddio'r cofnod hwn at ddibenion archwilio a'i wirio yn erbyn nifer yr amlenni a gyfrifwyd fel rhan o'r broses agor.

6.14 Dylech hefyd gwblhau cyfrif papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob blwch pleidleisio drwy'r post. Mae templed o gyfrif papurau pleidleisio drwy'r post ar gael i chi ei ddefnyddio at y diben hwn.

6.15 Hefyd, dylech baratoi atodlen sy'n cofnodi cyfanswm nifer y pleidleisiau post a roddwyd ym mhob blwch pleidleisio drwy'r post, yn ogystal â chyfanswm nifer blychau o'r fath. Dylech hefyd drefnu papurau pleidleisio mewn sypiau er mwyn sicrhau y gallwch adalw a chanslo unrhyw bapur pleidleisio penodol fel sy'n ofynnol (er enghraifft, os bu'n rhaid ailanfon yn dilyn gwall gweithdrefnol).

6.16 Mae'n ofynnol i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post i bob ward.<sup>84</sup> Mae'r ddogfen hon yn rhan allweddol o'ch llwybr archwilio.

### Cyfuno

Rhaid i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob etholiad. Mae'r dogfennau hyn yn rhan allweddol o'ch llwybr archwilio. Bydd angen datganiadau ar wahân hyd yn oed lle mae'r broses o anfon papurau pleidleisio drwy'r post wedi'i chyfuno.<sup>85</sup>

### **Refferenda maerol ac etholiadau maerol awdurdodau lleol**

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, mae'n ofynnol i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post ardal gyfan yr awdurdod lleol.<sup>86</sup>

### Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Yn y digwyddiadau pleidleisio hyn, rhaid i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post y rhan honno o ardal yr awdurdod cyfunol sydd yn eich awdurdod lleol<sup>87</sup>.

### Refferenda cynllunio cymdogaeth

Mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth rhaid i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post y rhan honno o ardal y refferendwm sydd yn eich awdurdod lleol.<sup>88</sup>

6.17 Dylech sicrhau bod yr holl ffigurau sydd eu hangen ar gyfer y datganiadau wedi'u cofnodi'n gywir wrth dderbyn, agor a chadarnhau pleidleisiau post. I gael gwybodaeth am gadw cofnod o ddatganiadau pleidleisiau post sydd wedi mynd drwy'r broses agor ac a wrthodwyd, gweler paragraff **6.50**.

## Marcio'r rhestr pleidleiswyr post a'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post

6.18 Rhaid i chi farcio'r rhestr o bleidleiswyr post neu'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post, fel sy'n briodol, pryd bynnag y dychwelir datganiad pleidleisio drwy'r post, ni waeth a oes hefyd bapur pleidleisio gydag ef.<sup>89</sup>

## Cadarnhau wrth bleidleiswyr fod eu pleidlais bost wedi'i dychwelyd

6.19 Os gofynnir am hynny, mae'n ofynnol i chi gadarnhau wrth bleidleisiwr neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post p'un a ydych wedi derbyn datganiad pleidleisio drwy'r post gan yr unigolyn hwnnw drwy edrych ar y rhestrau a farciwyd. Mae hefyd yn ofynnol i chi gadarnhau a yw rhif y papur(au) pleidleisio a roddwyd i'r etholwr neu'r dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post wedi'i gofnodi ar y naill restr neu'r llall o bleidleisiau a wrthodwyd dros dro y mae'n ofynnol ei chadw a'i defnyddio at ddiben paru dogfennau (gweler paragraff **6.30**).<sup>90</sup>

6.20 Os derbyniwch gais am gadarnhad, rhaid i chi fodloni eich hun mai'r etholwr neu ddirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post a wnaeth y cais cyn rhoi'r cadarnhad.<sup>91</sup> Er mwyn penderfynu a ydych wedi bodloni'ch hun yn y naill achos neu'r llall, dylech ystyried gofyn am enw, cyfeiriad a dyddiad geni.

# Agor pleidleisiau post

## Pwy all fod yn bresennol pan agorir pleidleisiau post?

6.21 Yn ogystal â chi a'ch staff, caiff y canlynol fod yn bresennol ar adeg agor pleidleisiau post:<sup>92</sup>

- ymgeiswyr
- asiantiaid etholiad
- unrhyw unigolyn a benodwyd gan ymgeisydd i fod yn bresennol yn lle'r asiant etholiadol
- asiantiaid pleidleisiau post
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig

### Cyfuno

Lle cyfunwyd y gwaith o anfon a derbyn pleidleisiau post, caiff pawb sydd â hawl i fod yn bresennol ar adeg agor pleidleisiau post ar gyfer eu hetholiad fod yno.

### Refferenda Maerol

Ar wahân i chi a'ch staff, gall y canlynol fod yn bresennol ar adeg agor pleidleisiau post mewn refferendwm maerol:<sup>93</sup>

- Unrhyw asiantiaid a benodwyd yn benodol i fod yn bresennol (y cyfeirir atynt yn y rheoliadau fel 'arsylwyr cyfrif'). Gall yr asiantiaid hyn gael eu henwebu gan drefnydd y ddeiseb, ond cânt eu penodi gennych chi.
- Y maer etholedig (os oes un).
- Trefnwyr y ddeiseb.
- Arsylwyr etholiadol achrededig.
- Cynrychiolwyr y Comisiwn.

### Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Yn ogystal â chi a'ch staff, caiff y canlynol fod yn bresennol ar adeg agor pleidleisiau post mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol:<sup>94</sup>

- ymgeiswyr
- asiantiaid etholiad (neu is-asiantiaid sy'n bresennol yn lle asiant etholiad)
- unrhyw unigolyn a benodwyd gan ymgeisydd i fod yn bresennol yn lle'r asiant etholiadol
- asiantiaid pleidleisiau post
- Cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig

## Refferenda cynllunio cymdogaeth

Ar wahân i chi a'ch staff, gall y canlynol fod yn bresennol ar adeg agor pleidleisiau post mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth.<sup>95</sup>

- y Prif Swyddog Cyfrif (os oes un)
- unrhyw asiantiaid a benodwyd yn benodol i fod yn bresennol (y cyfeirir atynt yn y rheoliadau fel 'arsylwyr cyfrif')
- arsylwyr etholiadol achrededig
- Cynrychiolwyr y Comisiwn

Rhaid penodi 'arsylwyr cyfrif' yn gyntaf i arsylwi'r broses gyfrif cyn rhoi'r hawl iddynt arsylwi unrhyw broses o agor pleidleisiau post: dim ond os cânt eu penodi yn arsylwyr cyfrif ar gyfer y broses gyfrif y gallant fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post.

6.22 Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i roi o leiaf 48 awr o rybudd ysgrifenedig o amser a lleoliad pob sesiwn agor. Hefyd, rhaid i'r rhybudd ysgrifenedig hwn, yn ôl y gyfraith, nodi uchafswm yr asiantiaid pleidleisio drwy'r post y gellir eu penodi.<sup>96</sup>

6.23 Dylai'r broses o agor pleidleisiau post fod yn dryloyw. Dylech sicrhau bod pawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn sesiynau agor yn gallu gweld yr holl broses yn glir a dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd. Dylai unrhyw un sy'n bresennol gael gwybodaeth am y prosesau agor rydych am eu dilyn, p'un ai ar lafar neu ar ffurf nodiadau canllaw ysgrifenedig.

6.24 Dylech hefyd hysbysu ymgeiswyr, asiantiaid etholiadol ac asiantiaid pleidleisio drwy'r post o'r broses i'w dilyn os byddant am wrthwynebu datganiad pleidleisio drwy'r post. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses o reoli hyn ym mharagraff **6.26** isod. Hefyd, gellid rhoi copïau o'ch cynllun i unrhyw un sydd â hawl i fod yn bresennol er mwyn eu helpu i ddilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd.



Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn [safon perfformiad 2](#), [bydd angen i chi sicrhau bod pawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post yn gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd.](#)

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi cynllun ar waith a nodi'r wybodaeth a roddir i'r sawl sy'n bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post

6.25 Rhaid rhoi copi o'r [darpariaethau cyfrinachedd perthnasol i unrhyw un sy'n bresennol mewn sesiwn agor pleidleisiau post, gan gynnwys eich staff.](#)<sup>97</sup>

6.26 Mae'n ofynnol i chi gymryd y mesurau priodol er mwyn atal unigolion rhag gweld y bleidlais a gafodd ei bwrw ar y papurau pleidleisio. Drwy gydol y sesiynau agor, rhaid i chi gadw'r papurau pleidleisio wyneb i lawr.<sup>98</sup> Efallai y bydd adegau pan fydd modd gweld blaen papur pleidleisio. Fodd bynnag, mae'n drosedd i unrhyw un geisio pennu'r ymgeisydd a gafodd bleidlais ar

bapur pleidleisio penodol neu rannu unrhyw wybodaeth o'r fath a gafwyd yn y sesiynau hynny.<sup>99</sup> Rhaid i unrhyw un sy'n bresennol pan agorir pleidleisiau post, sy'n cynnwys eich staff sy'n gweithio yn y sesiwn agor, gynnal cyfrinachedd y bleidlais.<sup>100</sup>

## Y weithdrefn ar gyfer agor pleidleisiau post

6.27 Nodir y prosesau i'w dilyn wrth agor pecynnau pleidleisio drwy'r post mewn deddfwriaeth:

### Cam 1: agor y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post

- Cyfrif a chofnodi nifer y pecynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd (h.y., nifer yr amlenni 'B' yn y blwch pleidleisio i bleidleiswyr post).<sup>101</sup>
- Agor amlen 'B' a thynnu'r datganiad pleidleisio drwy'r post a'r amlen papur pleidleisio.<sup>102</sup>
- Cadarnhau bod y rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r rhif ar yr amlen papur pleidleisio (amlen 'A').<sup>103</sup>
- Rhaid rhoi marc yn y rhestr pleidleiswyr post, neu'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio fel y bo'n briodol i ddangos bod datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i ddychwelyd.<sup>104</sup>

### Cam 2: bwrw golwg dros y dynodyddion personol

- Sicrhau bod yr etholwr wedi llofnodi'r datganiad ac wedi rhoi dyddiad geni.
- Cadarnhau bod y llofnod a'r dyddiad geni ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r hyn a geir ar y cofnod o fanylion adnabod personol.<sup>105</sup>
- Os gwrthodwch ddatganiad pleidleisio drwy'r post, rhaid i chi nodi 'gwrthodwyd' ar y datganiad, ei atodi i amlen y papur pleidleisio (os nad oes amlen o'r fath rhaid i chi ei atodi i'r papur pleidleisio) a'i roi yn y blwch ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Cyn ei roi yn y blwch, rhaid i chi ei ddangos i'r asiantiaid ac, os bydd unrhyw un yn gwrthwynebu eich penderfyniad, rhaid ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y gwrthodiad". Dylech hefyd roi'r rheswm dros ei wrthod.<sup>106</sup>

### Cam 3: agor amlenni papurau pleidleisio drwy'r post<sup>107</sup>

- Agor yr amlen papur pleidleisio (amlen 'A') a thynnu'r papur(au) pleidleisio allan gan sicrhau bod y papur(au) pleidleisio yn cael ei gadw neu eu cadw wyneb i lawr drwy'r amser.
- Cadarnhau bod y rhif(au) ar yr amlen papur pleidleisio (amlen 'A') yn cyfateb i'r rhif(au) ar gefn y papur(au) pleidleisio.
- Rhoi'r papur(au) pleidleisio yn y blwch neu'r blychau pleidleisio drwy'r post.

### Cam 4: selio'r blychau pleidleisio drwy'r post

- Cyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio drwy'r post i'w selio ym mhob blwch pleidleisio drwy'r post.
- Selio a storio'r blychau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel. Gall unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd atodi eu seliau.<sup>108</sup>

6.28 Mae [siart llif agor pleidleisiau post](#) hefyd ar gael, sy'n crynhoi'r broses hon.

6.29 Dylech drefnu papurau pleidleisio mewn sypiau mewn ffordd sy'n sicrhau y gallwch adalw a chanslo unrhyw bapur pleidleisio penodol (er enghraifft, os bu'n rhaid ailanfon yn dilyn gwall gweithdrefnol). Am y rheswm hwn, a chan ystyried yr angen i ddilysu cynnwys pob blwch pleidleisio drwy'r post ar y cam dilysu, dylech ystyried sawl papur pleidleisio rydych am ei gadw ym mhob blwch.

### **Paru datganiadau pleidleisio drwy'r post â phapurau pleidleisio drwy'r post**

6.30 Rhaid i chi gadw dwy restr o bapurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd dros dro: un i gofnodi rhif papur pleidleisio unrhyw bapur(au) pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post, un arall i gofnodi rhif(au) papur pleidleisio ar unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post nas dychwelwyd gyda'r papur(au) pleidleisio <sup>109</sup> A thaenlen [y gallwch ei](#) defnyddio at y diben hwn. Dylech wirio'r rhestrau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modd paru unrhyw ddogfennau nad ydynt yn cyfateb, gan olygu bod modd ailgyflwyno'r pleidleisiau post hynny i'r broses.

## **Bwrw golwg dros y dynodyddion personol**

6.31 Rhaid i chi wirio'r dynodyddion ar yr holl ddatganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd.<sup>110</sup>

6.32 Dylai unrhyw un a fydd yn dilysu dynodyddion pleidleiswyr post ac sydd wedi cael ei awdurdodi gennych i wneud penderfyniadau ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post gael copi o [Ganllawiau'r Comisiwn a'r Gwasanaeth Gwyddor Fforensig ar wirio llofnodion](#) a chael cyfarwyddyd i'w dilyn.

6.33 Rhaid i unrhyw achos o ddiffyg llofnod (lle nad yw'r etholwr wedi cael ildiad) neu ddyddiad geni arwain at wrthodiad.<sup>111</sup>

6.34 Wrth ddilysu datganiad pleidleisio drwy'r post, nid yw'r llofnod na'r dyddiad geni yn bwysicach na'i gilydd - rhaid rhoi'r ddau (oni fydd yr etholwr wedi cael ildiad o ran rhoi llofnod), a rhaid i'r ddau gyfateb.

6.35 Os rhoddir y dyddiad cwblhau ar y datganiad yn lle dyddiad geni'r etholwr, rhaid gwrthod y datganiad oherwydd ni fydd yn cyfateb i ddyddiad geni'r etholwr fel y'i nodir ar y cofnod dynodyddion personol. Yn yr un modd, os rhoddwyd y dyddiad cwblhau ar y ffurflen gwneud cais am bleidlais bost wreiddiol mewn camgymeriad, ni fydd hyn yn cyfateb i'r dyddiad geni a roddwyd ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a rhaid gwrthod y datganiad.

6.36 Efallai y bydd y pleidleisiwr yn cwblhau'r blwch dyddiad geni mewn fformat gwahanol i'r hyn y gofynnir amdano ar y datganiad pleidleisio drwy'r post. Os felly, os byddwch yn fodlon y rhoddwyd dyddiad geni'r pleidleisiwr a'i fod yn cyfateb i'r hyn sydd ar y cofnod dynodyddion personol, efallai y byddwch yn dal i allu bodloni eich hun bod y datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'n briodol.

6.37 Nid oes rhaid i chi wneud penderfyniad ar ddatganiad pleidleisio drwy'r post ar sail y wybodaeth ar y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r cofnod dynodyddion personol yn unig. Cewch hefyd gyfeirio at ffynonellau eraill ac ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych wrth wneud eich penderfyniad. Gallech, er enghraifft, gyfeirio hefyd at y llofnod a roddwyd ar ffurflen gofrestru.

6.38 Hefyd, gall etholwr gysylltu â chi i ddweud, er enghraifft, ei fod wedi torri ei fraich ers rhoi ei ddynodyddion i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac na all lofnodi'i enw yn ôl yr arfer. Os byddwch yn fodlon ar hyn, gallech benderfynu derbyn ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post fel un dilys, hyd yn oed os yw'r llofnod yn edrych yn wahanol i'r un ar y cofnod dynodyddion personol.

6.39 Dylai pob penderfyniad ar ddatganiad pleidleisio drwy'r post fod ar sail unigol.

6.40 Gall ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid pleidleisio drwy'r post wrthwynebu datganiad pleidleisio drwy'r post. Os byddant yn gwrthwynebu gwrthodiad, rhaid nodi 'gwrthodiad a wrthwynebwyd' ar y datganiad pleidleisio drwy'r post cyn ei atodi i amlen y papur pleidleisio a'i roi yn y blwch ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd.<sup>112</sup> Nid oes gan arsylwyr na chynrychiolwyr achrededig yr hawl i wrthwynebu achos o wrthod datganiad pleidleisio drwy'r post.

## Y sesiwn agor pleidleisiau post olaf

6.41 Dylech sicrhau bod angen agor cyn lleied o bleidleisiau post â phosibl ar y camau dilysu a chyfrif er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl i'r prosesau dilysu a chyfrif.

6.42 Waeth p'un a yw'r achos olaf o agor pleidleisiau post yn digwydd yn y lleoliad dilysu a chyfrif neu rywle arall, rhaid i chi sicrhau bod y broses o agor pleidleisiau post yn digwydd gerbron unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol. Fel gydag unrhyw sesiynau agor eraill, mae'n ofynnol i chi roi hysbysiad o amser a lleoliad y sesiwn agor pleidleisiau post olaf (fel y nodir ym mharagraff **3.38**).



Ar ôl cwblhau'r sesiwn agor pleidleisiau post olaf, mae'n ofynnol i chi selio a storio amryw flychau a dogfennau'n ddiogel. Ceir rhagor o ganllawiau ar hyn yn [Rhan F - Ar ôl datgan y canlyniad](#)

## Cadw cofnod o becynnau pleidleisio drwy'r post anghyflawn a ddychwelwyd

6.43 Drwy gydol y broses agor, byddwch wedi cadw dwy restr o bapurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd dros dro<sup>113</sup>:

- un i gofnodi rhif papur pleidleisio unrhyw bapur(au) pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd heb ddatganiad pleidleisio drwy'r post



- ail un i gofnodi rhif(au) y papur pleidleisio ar unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd heb y papur(au) pleidleisio

6.44 Ar ôl y sesiwn agor olaf, daw'r rhain, yn eu trefn, yn rhestr olaf papurau pleidleisio heb fod datganiad pleidleisio drwy'r post dilys wedi'i dderbyn a'r rhestr olaf o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post dilys a dderbyniwyd heb rai o'r papurau pleidleisio neu'r papurau pleidleisio i gyd.

## Delio â phapurau pleidleisio wedi torri neu rwygo<sup>114</sup>

6.45 Mewn rhai achosion, bydd etholwyr wedi torri neu rwygo eu papurau pleidleisio drwy'r post a gwblhawyd. Bydd angen i chi benderfynu a yw'r darn a ddychwelwyd yn bapur pleidleisio dilys. Gall fod sawl senario dan sylw:

### **Mae'r darn yn cynnwys rhif y papur pleidleisio a'r marc swyddogol**

6.46 Bydd y 'papur pleidleisio' yn mynd drwy'r broses dilysu pleidleisiau post (am ei fod yn cynnwys rhif y papur pleidleisio) ac yn cael ei gyfrif. Gellid ei dderbyn yn bleidlais ddilys adeg y cyfrif, ar yr amod bod bwriad y pleidleisiwr yn glir.

### **Mae'r darn ond yn cynnwys rhif y papur pleidleisio a dim marc swyddogol**

6.47 Bydd y 'papur pleidleisio' yn mynd drwy'r broses dilysu pleidleisiau post ac yn cael ei gyfrif. Rhaid ei wrthod adeg y cyfrif am nad yw'n cynnwys y marc swyddogol.

### **Mae'r darn ond yn cynnwys y marc swyddogol a dim rhif papur pleidleisio**

6.48 Rhaid gwrthod y 'papur pleidleisio' ar y cam dilysu pleidleisiau post oherwydd ni chaiff ei baru wrth agor amlen 'A' nac yn erbyn y datganiad pleidleisio drwy'r post.

### **Nid yw'r darn yn cynnwys y marc swyddogol na rhif y papur pleidleisio**

6.49 Rhaid gwrthod y 'papur pleidleisio' ar y cam dilysu pleidleisiau post oherwydd, unwaith eto, ni chaiff ei baru wrth agor amlen 'A' nac yn erbyn y datganiad pleidleisio drwy'r post.

## Paratoi cofnod o'r pleidleisiau post hynny sydd wedi methu'r gwiriadau dynodyddion

6.50 Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol hysbysu pleidleiswyr drwy'r post ar ôl etholiad os gwrthodwyd eu pleidlais bost am iddi fethu gwiriadau dynodyddion personol a'u hysbysu am y rheswm penodol dros ei gwrthod.<sup>115</sup> I wneud hyn, rhaid i chi gadw cofnod o'r categorïau rydych yn gwrthod datganiadau pleidleisio drwy'r post unigol oddi tanynt.

6.51 Rhaid rhoi cyfrif am bob datganiad pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd. Rhaid i chi gadw rhestr o'r pleidleisiau post hynny sydd wedi methu'r gwiriadau dynodyddion personol. Rhaid i'r rhestr hon gynnwys, ar gyfer pob pleidlais bost o'r fath a wrthodwyd:<sup>116</sup>

- enw a chyfeiriad yr etholwr (ac enw a chyfeiriad y dirprwy os oes gan yr etholwr un),
- rhif yr etholwr ar y gofrestr etholwyr (a rhif y dirprwy os oes gan yr etholwr un),
- y rheswm neu'r rhesymau penodol dros wrthod y datganiad pleidleisio drwy'r post,
- unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r gwrthodiad sy'n briodol yn eich barn chi, ond nid rhif na rifau'r papur pleidleisio).

6.52 Y rhesymau penodol dros wrthod datganiad pleidleisio drwy'r post yw: <sup>117</sup>

- nid yw'r llofnod yn cyfateb i'r enghraifft a gedwir ar y cofnod dynodyddion personol
- nid yw'r dyddiad geni yn cyfateb i'r un a gedwir ar y cofnod dynodyddion personol
- mae'r blwch llofnod yn wag
- mae'r blwch dyddiad geni yn wag

6.53 Os bydd pleidleisiwr drwy'r post yn ymddangos ar y rhestr o bleidleisiau post sydd wedi methu'r gwiriadau dynodyddion personol, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hysbysu'r pleidleisiwr drwy'r post o'r gwrthodiad o fewn tri mis i ddyddiad y bleidlais. <sup>118</sup>

6.54 Os byddwch yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni mewn perthynas â phleidlais bost benodol, nid oes rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol anfon hysbysiad. <sup>119</sup>

6.55 Felly, dylech gadw cofnod o unrhyw achosion lle rydych yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni ar gyfer y Swyddog Cofrestru Etholiadol, fel ei fod yn gwybod ym mha achosion na ddylai anfon hysbysiad o wrthod dynodyddion pleidlais bost. Er mwyn hwyluso hyn, dylech anfon y rhestr hon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Dylid gwneud hyn pan fyddwch yn anfon yr holl ddogfennau etholiadol eraill at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

6.56 Lle yr amheuir twyll, dylech roi cynnwys y pecyn pleidleisio drwy'r post mewn pecyn ar wahân a hysbysu eich Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu lleol. Dylech drafod y pecyn pleidleisio drwy'r post cyn lleied â phosibl a, lle bo modd, wneud nodyn o bawb sydd wedi ei drafod.



Ceir canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynghylch anfon hysbysïadau gwrthod dynodyddion pleidleisiau post yn [Rhan 5 - Pleidleisio absennol o ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol](#).

<sup>1</sup> Rheol 1 Atodlen 2 Rheol Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 (Rheolau Prif Ardaloedd 2006), Rheol 1 Atodlen 2 Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau)

---

(Cymru a Lloegr) 2006 (Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006), Rheol 3 Atodlen 1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007 (Rheolau Etholiadau Maerol 2007), rheol 3 Atodlen 2 Gorchymyn (Etholiadau Maerol) Awdurdodau Cyfunol 2017 (Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017)

<sup>2</sup> Adrannau 13AB, 13B ac 13BA Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

<sup>3</sup> Rheoliad 56 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (Rheoliadau 2001)

<sup>4</sup> Rheoliad 56 Rheoliadau 2001

<sup>5</sup> Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a13B

<sup>6</sup> Rheol 26(3)(c) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 26(3)(c) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006 rheol 28(3)(c) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 28(3)(c) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol, rheol 28(3)(c) Atodlen 3 Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012 (Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012), rheol 17(3)(c) Atodlen 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012 (Rheoliadau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 (Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012), rheol 17(3)(c) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 (Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008)

<sup>7</sup> Rheoliad 62 Rheoliadau 2001

<sup>8</sup> Paragraff 6(2)(b), Atodlen 4, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000

<sup>9</sup> Paragraff 6(6), Atodlen 4, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000

<sup>10</sup> Adran 61(4), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

<sup>11</sup> Paragraff 6 Atodlen 4 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 gorchymyn drafft CAM

<sup>12</sup> Paragraff 6 Atodlen 4 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007, Atodlen 4 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

<sup>13</sup> Paragraff 6 Atodlen 4 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4 Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012

<sup>14</sup> Rheoliad 85(1) Rheoliadau 2001

<sup>15</sup> Rheoliad 85(5) Rheoliadau 2001

<sup>16</sup> Rheoliad 84(7) Rheoliadau 2001

<sup>17</sup> Rheoliad 76 Rheoliadau 2001

<sup>18</sup> Rheoliad 76 Rheoliadau 2001

<sup>19</sup> Adran 9B(8), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

<sup>20</sup> Ffurflen Datganiad Pleidleisio drwy'r post a rheol 22(1) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(1) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(2) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(1) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13 (1) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008

<sup>21</sup> Rheoliad 80 Rheoliadau 2001

<sup>22</sup> Rheol 17 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 17(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 19 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 8 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 19 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 8 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008

<sup>23</sup> Rheoliad 75 Rheoliadau 2001 a rheol 53 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 53 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 45 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol, rheol 35 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 45 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 34 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008

<sup>24</sup> Rheol 22(1) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(1) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(1) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(1) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13(1) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008

<sup>25</sup> Rheoliad 72 Rheoliadau 2001 a rheol 22(1) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(1) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(1) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(1) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13(1) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008

<sup>26</sup> Rheol 22(2) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(2) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(2) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(2) Rheolau Refferendwm

- 
- Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(2) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13(2) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>27</sup> Rheoliad 72(7) – (8) Rheoliadau 2001
- <sup>28</sup> Adran 9B Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- <sup>29</sup> Rheoliad 74 Rheoliadau 2001
- <sup>30</sup> Rheoliad 76 Rheoliadau 2001 a rheol 22(4) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(4) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(4) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(4) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(4) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13(4) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>31</sup> Rheol 16 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 16 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 18(3) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 7 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 18 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 7 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008. Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o flaen y papur pleidleisio prif ardaloedd yn yr Atodiad i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (mae'r cefn wedi'i gynnwys yn Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014). Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o bapur pleidleisio plwyf/cymuned yn Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (mae'r cefn wedi'i gynnwys yn Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014). . Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o bapur pleidleisio etholiadau maerol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014. I gael manylion am sut i gynhyrchu papurau pleidleisio dwyieithog yng Nghymru, gweler ein [Canllawiau ar bapurau pleidleisio i Gymru](#).
- <sup>32</sup> Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o'r datganiad pleidleisio drwy'r post mewn etholiadau prif ardaloedd yn Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 ac, yng Nghymru, dylent gael eu darllen ochr yn ochr â Gorchymyn Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Ffurflenni Cymru) (Diwygio) 2014. Mewn etholiadau cyngorau plwyf a chymuned, gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o'r datganiad pleidleisio drwy'r post yn Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 ac, yng Nghymru, dylent gael eu darllen ochr yn ochr â Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Ffurflenni Cymru) (Diwygio) 2014. Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o'r datganiad pleidleisio drwy'r post mewn etholiadau maerol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014.
- <sup>33</sup> Rheol 72 Rheoliadau 2001 a Ffurflenni Datganiad Pleidleisio drwy'r Post, Rheolau Prif Ardaloedd 2006, Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, Rheolau Etholiadau Maerol 2007, Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>34</sup> Rheoliad 72(5)(b) Rheoliadau 2001
- <sup>35</sup> Rheoliad 72(6) Rheoliadau 2001
- <sup>36</sup> Ffurflenni Datganiad Pleidleisio drwy'r Post, Rheolau Prif Ardaloedd 2006, Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, Rheolau Etholiadau Maerol 2007, Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>37</sup> Rheoliad 62 Rheoliadau 2001
- <sup>38</sup> Rheol 22(1) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 22(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 24(1) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 14(1) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 24(1) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 13(1) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 a Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>39</sup> Rheoliad 67 Rheoliadau 2001
- <sup>40</sup> Rheoliad 70 Rheoliadau 2001
- <sup>41</sup> Rheoliad 72(2) Rheoliadau 2001
- <sup>42</sup> Rheoliad 72(4) Rheoliadau 2001
- <sup>43</sup> Rheoliad 72(7) – (8) Rheoliadau 2001
- <sup>44</sup> Rheoliad 73(2) Rheoliadau 2001
- <sup>45</sup> Rheoliad 75 Rheoliadau 2001
- <sup>46</sup> Rheoliad 12 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth
- <sup>47</sup> Rheoliad 77 Rheoliadau 2001
- <sup>48</sup> Rheoliad 77(7) Rheoliadau 2001
- <sup>49</sup> Rheoliad 77(2) Rheoliadau 2001

- 
- <sup>50</sup> Rheoliad 77(2)(b) Rheoliadau 2001
- <sup>51</sup> Rheoliad 77(6) Rheoliadau 2001
- <sup>52</sup> Rheoliad 77(8) Rheoliadau 2001
- <sup>53</sup> Rheoliad 78 Rheoliadau 2001
- <sup>54</sup> Rheoliad 78(3)(a) a (2001), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban
- <sup>55</sup> Rheoliad 78(3) Rheoliadau 2001
- <sup>56</sup> Rheoliad 78(2A) a (2B) Rheoliadau 2001
- <sup>57</sup> Rheoliad 78(4) Rheoliadau 2001
- <sup>58</sup> Adran 46(1) Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006
- <sup>59</sup> Rheoliad 78A(1) a (3) Rheoliadau 2001
- <sup>60</sup> Rheoliad 78A(1) Rheoliadau 2001
- <sup>61</sup> Rheoliadau 775(5) a 78(2B) Rheoliadau 2001
- <sup>62</sup> Rheoliad 86A Rheoliadau 2001
- <sup>63</sup> Rheoliad 77(8) Rheoliadau 2001
- <sup>64</sup> Rheoliad 78(4) Rheoliadau 2001
- <sup>65</sup> Rheoliad 78A(3) Rheoliadau 2001
- <sup>66</sup> Rheoliad 78A(2)(c), Rheoliadau 2001
- <sup>67</sup> Rheol 45(2) a (4A) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 45(3) a (4A) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 37(3A) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 36(3A) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 47(5A) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 47(4) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017
- <sup>68</sup> Rheoliad 79 Rheoliadau 2001 Rheoliadau a rheol 45(4) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 45(4) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 37(4) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 36(4) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 36(4) Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 47(5) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 47(3) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017
- <sup>69</sup> Rheol 45(5)(a) a (7) Rheolau Prif Ardaloedd 2006 (Cyfuno), rheol 45(5)(a) a (7) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006 (Cyfuno), rheol 37(5)(a) a (7) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012 (Cyfuno), rheol 38(5)(a) a (7) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012 (Cyfuno), rheol 38(5)(a) a (7) Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008 (Cyfuno), rheol 47(7)(a) a (9) Rheolau Etholiadau Maerol 2007 (Cyfuno), rheol 50(5)(a) ac (8) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017 (Cyfuno)
- <sup>70</sup> Rheoliad 81 Rheoliadau 2001
- <sup>71</sup> Rheoliad 81 Rheoliadau 2001
- <sup>72</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001
- <sup>73</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001
- <sup>74</sup> Rheoliad 81(2) fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheolau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) 2007, Atodlen 4 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>75</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth
- <sup>76</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017
- <sup>77</sup> Rheoliad 81(6) Rheoliadau 2001
- <sup>78</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001
- <sup>79</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001
- <sup>80</sup> Rheoliad 81(2) fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, Atodlen 4 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- <sup>81</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheolau Awdurdod Maerol Cyfunol
- <sup>82</sup> Rheoliad 81(2) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth
- <sup>83</sup> Rheoliad 81(4) Rheoliadau 2001
- <sup>84</sup> Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001
- <sup>85</sup> Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001
- <sup>86</sup> Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008
- <sup>87</sup> Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017

- 
- <sup>88</sup> Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth
- <sup>89</sup> Rheoliad 84(7) Rheoliadau 2001, rheol 29 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 29 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 31 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 31 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 20 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 20 Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 21 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth
- <sup>90</sup> Rheoliad 84A(1) Rheoliadau 2001
- <sup>91</sup> Rheoliad 84A(3) Rheoliadau 2001
- <sup>92</sup> Adrannau 6A – 6D PPERA 2000, rheoliad 83 Rheoliadau 2001
- <sup>93</sup> Rheoliad 83 Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008
- <sup>94</sup> Rheoliad 83 Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017
- <sup>95</sup> Rheol 19 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012 a rheoliad 83 Rheoliadau 2001 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4 Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012
- <sup>96</sup> Rheoliad 80 Rheoliadau 2001
- <sup>97</sup> Rheoliad 70 Rheoliadau 2001
- <sup>98</sup> Rheoliad 84(6) Rheoliadau 2001
- <sup>99</sup> Adran 66(6), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- <sup>100</sup> Adran 66(4), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- <sup>101</sup> Rheoliad 84(1) Rheoliadau 2001
- <sup>102</sup> Rheoliad 84(2) Rheoliadau 2001
- <sup>103</sup> Rheoliad 85A(5) Rheoliadau 2001
- <sup>104</sup> Rheoliad 84(7) Rheoliadau 2001
- <sup>105</sup> Rheoliad 85A(2) Rheoliadau 2001
- <sup>106</sup> Rheoliad 85A(3) – (4) Rheoliadau 2001
- <sup>107</sup> Rheoliad 86 Rheoliadau 2001
- <sup>108</sup> Rheoliad 81(4) Rheoliadau 2001
- <sup>109</sup> Rheoliad 87(2) – (3) Rheoliadau 2001
- <sup>110</sup> Rheoliad 84(2) ac 85A Rheoliadau 2001
- <sup>111</sup> Rheoliad 85A(2) Rheoliadau 2001
- <sup>112</sup> Rheoliad 85A(4) Rheoliadau 2001
- <sup>113</sup> Rheoliad 87(1) Rheoliadau 2001
- <sup>114</sup> Rheol 47 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 47 Rheol Plwyfi a Chymunedau, rheol 51 Rheolau Awdurdodau Maerol Cyfunol 2017, rheol 48 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 38 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 38 Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 39 Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012
- <sup>115</sup> Rheoliad 61C Rheoliadau 2001
- <sup>116</sup> Rheoliad 87(4) Rheoliadau 2001
- <sup>117</sup> Rheoliad 87(5) Rheoliadau 2001
- <sup>118</sup> Rheoliad 61C(1) Rheoliadau 2001
- <sup>119</sup> Rheoliad 61C(2)(b) Rheoliadau 2001